Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Adroddiad ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

27 – 31 Gorffennaf 2015

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae’r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig (DU) mewn perthynas â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforiwyd a bwyd anifeiliaid. Caiff swyddogaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hyn eu darparu yn bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae’r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyried y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi, hyrwyddo diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cydnabod y bydd llawer o amrywiaeth efallai o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'r "Safon" a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd Ebrill 2010) ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder y cyhoedd drwy sicrhau bod awdurdodau’n darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae’r cynllun hefyd yn rhoi’r cyfle i nodi a lledaenu arferion da ac mae’n darparu gwybodaeth er mwyn llywio polisi’r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwydydd anifeiliaid. Mae'r cynllun ar gael yma:
www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae’r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft am nifer yr arolygiadau safleoedd bwyd a gynhaliwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data ar weithgarwch gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU a gellir dod o hyd iddi drwy: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, wedi'i baratoi gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I’ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 5
  Rheswm dros yr Archwiliad ..... 5
  Cwmpas yr Archwiliad ..... 6
  Cefndir ..... 6
2 Crynodeb Gweithredol ..... 9
3 Trefniadaeth a Rheoli ..... 13
4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig ..... 19
5 Swyddogion Awdurdodedig ..... 20
6 Cyfleusterau ac Offer ..... 23
7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd ..... 25
  Hylendid Bwyd ..... 25
  Safonau Bwyd ..... 31
8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd ..... 35
  Hylendid Bwyd ..... 35
  Safonau Bwyd ..... 36
9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref ..... 37
10 Cyngor i Fusnesau ..... 38
11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd ..... 39
12 Arolygu a Samplu Bwyd ..... 40
  Hylendid Bwyd ..... 41
  Safonau Bwyd ..... 41
13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd ..... 43
14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd ..... 45
15 Gorfodi ..... 46
16 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu ..... 51
  Hylendid Bwyd ..... 51
  Safonau Bwyd ..... 52
17 Cwynion am y Gwasanaeth ..... 54
18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill ..... 55
19 Monitro Mewnol ..... 56
20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid ..... 58
21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd ..... 59


**<u>Atodiadau</u>**


  Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ..... 61
  Dull/Methodoleg yr Archwiliad ..... 76
  Geirfa ..... 79

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad hylendid a safonau bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth drwy www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports – cliciwch ar 'Cymraeg'

***Rheswm dros yr Archwiliad***

1.2 Cafodd y pŵer i bennu safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol eu rhoi i'r ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o wasanaethau bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.

1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ei gwirio yn cynnwys gofyniad i ALlau gynnal archwiliadau mewnol, neu drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw cadarnhau y caiff rheolaethau swyddogol yn ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), wedi pennu trefniadau archwilio allanol. Wrth lunio'r rhain, ystyriodd yr Asiantaeth ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar sut y dylid cynnal archwiliadau o'r fath.[1]

1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

---

[1] Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 yn nodi'r canllawiau sy'n amlinellu'r meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Reolaethau Swyddogol i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid (2006/677/CE).

***Cwmpas yr Archwiliad***

1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Torfaen ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhaliwyd elfen ‘ar y safle’ yr archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn New Inn rhwng 27 – 31 Gorffennaf 2015, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol.

1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn gyfle i gael trafodaeth â swyddogion sy’n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda’r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi’r Asiantaeth.

1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â’r “Safon”. Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe’i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae’n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae’r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree – cliciwch ar ‘Cymraeg’

***Cefndir***

1.8 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awdurdod unedol yn Ne Cymru, ac mae'n cynnwys ardal o 126 cilomedr$^2$; yr awdurdod lleol lleiaf ond dau yng Nghymru. Mae'n llwyr fewndirol ac yn ffinio â phedwar awdurdod lleol arall – Casnewydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili.

1.9 Mae Torfaen yn sir gymysg o ran ardaloedd gwledig a dinesig, gyda thair prif dref; Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Blaenafon ar hyd dyffryn Afon Llwyd. Mae de'r ardal yn ddinesig ac yn cynnwys cytref newydd, Cwmbrân. Mae masnachu yn rhan sylweddol o'r economi, ac mae'n agos at draffordd yr M4. Roedd Pontypŵl a Blaenafon yn drefi diwydiannol gynt; ac mae Blaenafon wedi'i lleoli mewn ardal wledig.  Mae Blaenafon hefyd yn Safle Treftadaeth y Byd, ac yno mae'r gweithfeydd haearn sydd wedi'u cadw orau yn Ewrop o'r 18fed ganrif, ynghyd ag Amgueddfa Lofaol Big Pit.

1.10 Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan Torfaen boblogaeth o 91,372, gyda 98% o'r boblogaeth yn perthyn i'r categori gwyn Prydeinig / Gwyddelig ac mae 9.8% yn siarad Cymraeg. Yr ardaloedd mwyaf poblog yw Cwmbrân a Phont-y-pŵl.

1.11 Mae nifer bach o leoedd sydd â lefelau uchel o amddifadedd yn Nhorfaen, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, ac mae'n gymharol dda o ran mynediad at wasanaethau.

1.12 Roedd gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei gyflawni gan swyddogion yn adran Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod, o fewn yr Adran Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Roedd y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch yn gorfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, ac roedd y Tîm Safonau Masnach yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd.

1.13 Roedd yr awdurdod wedi cymeradwyo cytundeb gwaith ar y cyd yn ddiweddar gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i archwilio cyfleoedd i gydweithio wrth gyflawni gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd. Disgwylir y byddai hyn yn gwella gwydnwch a chapasiti.

1.14 Roedd swyddogion a staff cymorth a oedd yn gyfrifol am hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u lleoli yn Nhŷ Blaen, Torfaen, Ffordd Panteg, New Inn, Pontypŵl, NP4 0LS. Roedd gwasanaethau ar gael rhwng 8.30 a 17.00 o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30 a 4.30pm ar ddydd Gwener.

1.15 Nododd yr awdurdod yn ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd 2015/16 (y Cynllun Gwasanaeth) fod ganddo wasanaeth brys y tu allan i oriau. Ni phrofwyd y gwasanaeth hwn fel rhan o'r archwiliad.

1.16 Ar ddechrau 2015/16 roedd oddeutu 821 o sefydliadau bwyd yn Nhorfaen yn ôl y Cynllun Gwasanaeth. Yn ogystal, nodwyd bod saith sefydliad bwyd cymeradwy.

1.17 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn nodi bod gan yr awdurdod dri swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn yn rhan o gyflawni gwaith sy'n ymwneud â hylendid bwyd; gostyngiad o oddeutu 20% dros y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, roedd Pennaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am gynllunio a monitro mewnol mewn perthynas â hylendid bwyd. O ran safonau bwyd, dywedodd yr awdurdod fod ganddo 1.5 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn.

1.18 Roedd yr awdurdod yn darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus i'r swyddogion, ac roedd yn eu cefnogi wrth geisio cymwysterau proffesiynol yn eu maes gwaith. Nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth bod y gyllideb hyfforddiant dan fygythiad.

1.19 Y gyllideb flynyddol ar gyfer gwasanaethau bwyd yn 2015/6 oedd £220,000. Nid oedd unrhyw newid yn y gyllideb ers y ddwy flynedd flaenorol, ond hysbyswyd yr Adran y dylid disgwyl toriadau o oddeutu 10% i'w chyllideb weithredu yn y dyfodol.

1.20 Mae'r awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 610 o sefydliadau bwyd yn Nhorfaen ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Archwiliwyd trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer cyflenwi rheolaethau bwyd swyddogol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau go iawn mewn sefydliadau bwyd er mwyn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol, ac yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth y gweithredwyr busnesau bwyd gyda gofynion deddfwriaethol. Roedd cwmpas yr archwiliad hefyd yn cynnwys asesiad o drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol yr awdurdod, a gwaith monitro mewnol gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd.

2.2 Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer cyflawni gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. Roedd yr awdurdod wedi cytuno'n ddiweddar i gyfuno ei wasanaethau bwyd â rhai awdurdod cyfagos, er mwyn cynyddu effeithiolrwydd a chapasiti gwasanaethau'r ddau awdurdod mewn ymateb i heriau yn y dyfodol.

2.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2015/16 a oedd yn cyd-fynd yn fras â chanllawiau'r ASB. Nodwyd bod nifer yr ymyriadau hylendid bwyd a oedd ar y gweill yn ôl categori risg heb eu nodi yn y Cynllun. Er bod blaenoriaethau a thargedau ymyrryd yr awdurdod wedi'u seilio ar risg, nid oeddent yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd nifer yr ymyriadau safonau bwyd yn cyd-fynd â chanlyniadau'r System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) y flwyddyn flaenorol. At hynny, nid oedd trefniadau ar gyfer ymdrin â'r ôl-groniad o ymyriadau safonau bwyd, gan gynnwys sefydliadau heb sgôr, wedi'u cynnwys. Er bod rhywfaint o wybodaeth gyllidebol wedi'i darparu, nid oedd cymhariaeth o'r adnoddau oedd eu hangen i gyflawni holl agweddau'r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd gyda'r rhai oedd ar gael wedi'i gyflawni.

2.4 Nodwyd bod angen i'r awdurdod gynnal adolygiad o berfformiad ym maes gorfodi cyfraith bwyd o leiaf unwaith y flwyddyn. Nodwyd rhai amrywiadau wrth gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynlluniau Gwasanaeth blaenorol, ac ymrwymwyd i fynd i'r afael â rhai ohonynt. Er hynny, nid oedd y rhain wedi'u nodi'n glir bob tro, ac nid oedd rhesymau dros yr amrywiadau wedi'u nodi.

2.5 Roedd swyddogion hylendid bwyd wedi'u hawdurdodi'n unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad, ond nid oedd cofnodion o'u cymwysterau ar gael ar gyfer yr holl swyddogion sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol safonau bwyd.

2.6 Cadarnhaodd gwiriadau archwilio fod y gronfa ddata hylendid bwyd a safonau bwyd yn gywir ar y cyfan a bod yr awdurdod wedi llwyddo i ddarparu ffurflen electronig ar gyfer canlyniadau blynyddol y System Monitro Trefniadau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS).

2.7 Roedd gwiriadau o gofnodion a'r gronfa ddata yn cadarnhau bod y gwasanaeth hylendid bwyd wedi blaenoriaethu arolygiadau busnesau risg uwch, ac nid oedd rhai sefydliadau risg is yn cael eu harolygu yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. At hynny, roedd rhai busnesau risg is yn cael eu sgorio yn ôl risg heb arolygiad. Nid oedd y rhaglen ymyriadau ar gyfer safonau bwyd yn cael ei chyflawni yn ymarferol. At hynny, roedd nifer sylweddol o sefydliadau yn hwyr yn derbyn ymyriad, gan gynnwys nifer sylweddol o sefydliadau heb sgôr. Lle'r oedd sefydliadau wedi derbyn sgôr risg, nid oedd yn bosibl gwirio p'un a oedd y sgoriau yn adlewyrchu'r risg safonau bwyd yn briodol.

2.8 Nid oedd cofnodion arolygu bob tro'n dangos bod asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes wedi'u cyflawni, na bod ailymweliadau wedi digwydd mewn modd amserol bob tro pan roedd tramgwyddau wedi'u nodi yn ystod arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd. Serch hynny, roedd yr awdurdod wedi gwneud gwelliannau'n ddiweddar i'w ddull o gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau hylendid bwyd, a dangoswyd hyn yn y ffeiliau arolygu mwyaf diweddar. At hynny, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos yr eir i'r afael â thramgwyddau cyfraith bwyd.

2.9 Roedd cofnodion ac adroddiadau arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cynnal yn briodol gan yr awdurdod. Fodd bynnag, nid oedd adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

2.10 Yn gyffredinol, roedd ymyriadau bwyd, heblaw am arolygiadau ac archwiliadau, wedi'u cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nid oeddent wedi mynd i'r afael â chwynion hylendid bwyd na hysbysiadau clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn gyson, na chwaith wedi cadw cofnodion priodol.

2.11 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd yn ei ardal, ac wrth gyflawni gweithgarwch hyrwyddo.

2.12 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o fonitro mewnol yn y gwasanaeth hylendid bwyd, ond nid yn y gwasanaeth safonau bwyd. Bydd cyflwyno gweithdrefnau monitro mewnol yr awdurdod yn llawn yn gwella'r broses.

**2.13 Cryfderau'r Awdurdod**

**Cyngor i fusnesau**

Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol, ac roedd yn gallu dangos ei fod yn gweithio â busnesau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

**Samplu Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd**

Roedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi cymryd y camau gweithredu priodol mewn ymateb i samplau bwyd anfoddhaol.

**2.14 Meysydd Allweddol y mae gofyn i'r Awdurdod Wella arnynt**

**Amlder Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd**

Nid oedd yr awdurdod wedi cynnal ymyriadau hylendid bwyd risg is a safonau bwyd ar y raddfa sy'n ofynnol yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae ymyriadau a gynhelir ar yr amlder gofynnol yn sicrhau bod risgiau sy’n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu hamlygu ac y caiff camau dilynol eu cymryd mewn modd amserol.

**Arolygiadau ac Ymyriadau Sefydliadau Safonau Bwyd**

Nid oedd gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion yn ystod ymyriadau bob amser yn ddigon manwl i ddangos bod cydymffurfiaeth busnesau wedi'i hasesu'n drylwyr.

**Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau Safonau Bwyd**

Nid oedd adroddiadau ymyriadau/arolygiadau a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

**Gorfodi**

Nid oedd camau gorfodi wedi'u cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog bob tro.

**Canfyddiadau'r Archwiliad**

## 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith strategol, polisi a mesurau cynllunio gwasanaeth*

3.1 Roedd gorfodi cyfraith bwyd ym mhortffolio'r Aelod Gweithredol dros Dai, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd. Roedd Cyfansoddiad yr awdurdod yn nodi ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Yn unol â'r Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau ar rai materion penodol wedi'u dirprwyo i swyddogion.

3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Bwyd, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd 2015-16 ('y Cynllun Gwasanaeth'). Er bod y Cynllun Gwasanaeth wedi'i gymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol, nid oedd ar gael i'r cyhoedd na busnesau bwyd ar wefan yr awdurdod adeg yr archwiliad.

3.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a amlinellwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys proffil o'r awdurdod, strwythur y sefydliad a chwmpas y gwasanaeth. Roedd yr amseroedd gweithredu, y mannau darparu gwasanaeth a nodau ac amcanion y gwasanaeth wedi'u nodi'n glir.

3.4 Dangosodd y Cynllun Gwasanaeth bod 821 o sefydliadau bwyd yn Nhorfaen yn destun rheolaethau swyddogol.

3.5 Roedd proffiliau busnesau bwyd yn Nhorfaen ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u darparu yn ôl y math o sefydliad a sgôr risg. Roedd nifer yr ymyriadau a raglennir yn 2015/16 wedi'u darparu yn ôl math o sefydliad yn hytrach nag yn ôl sgôr risg.

3.6 O ran hylendid bwyd, roedd yr wybodaeth ganlynol yn y Cynllun Gwasanaeth:

| Math o safle | Nifer yr arolygiadau a raglennir yn 2015/16 |
|---|---|
| Cynhyrchwyr Cynradd | |
| Gweithgynhyrchwyr / Pecynwyr | **6** |
| Mewnforwyr / Allforwyr | |
| Dosbarthwyr / Cludwyr | **4** |
| Archfarchnad / Goruwchfarchnad | **8** |
| Manwerthwyr Bach | **37** |
| Manwerthwyr Eraill | **16** |
| Bwyty / Caffi / Ffreutur | **61** |
| Gwesty / Tŷ Llety | **2** |
| Tafarn / Clwb | **47** |
| Safle Tecawê | **53** |
| Safle Gofal | **51** |
| Ysgol / Coleg | **31** |
| Uned Fwyd Symudol | **29** |
| Bwyty / Arlwywr arall | **26** |
| **Cyfanswm** | **371** |

At hynny, amcangyfrifwyd y byddai angen arolygu oddeutu 129 o fusnesau newydd a chynnal o leiaf 185 o ailymweliadau hylendid bwyd.

3.7 Roedd y targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer hylendid bwyd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ymroddiad i gyflawni'r holl arolygiadau/ymyriadau disgwyliedig mewn sefydliadau risg uwch, a oedd yn cynnwys 100% o'r arolygiadau bwriadedig yn y sefydliadau categori A, B a C.

3.8 Mewn perthynas â sefydliadau risg is, nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth y byddai sefydliadau categori D ac E yn destun ymyriadau gan ddefnyddio'r matrics seiliedig ar risg a luniwyd yn lleol. Arweiniodd hyn at drefnu arolygiadau mewn 40 o sefydliadau Categori D, ymweliadau samplu mewn 50 o sefydliadau Categori D, a dim ymyriad mewn 90 o sefydliadau o'r ddau gategori. At hynny, roedd yr awdurdod wedi diffinio a chyflwyno categori risg (o'r enw "Dim risg y gellir ei arolygu"), ar gyfer sefydliadau yr oedd yn credu nad oeddynt yn gymwys i gael eu cynnwys yn y rhaglen ymyriadau.

3.9 Roedd 60 o sefydliadau Categori D ac E a oedd fod i dderbyn ymyriad yn 2014/15 heb gael ymyriad, ac roeddent wedi'u nodi yn y Cynllun

Gwasanaeth. Roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y matrics ar gyfer sefydliadau risg is ar gyfer y rhaglen gyfredol.

3.10 Darparwyd yr wybodaeth ganlynol o ran safonau bwyd:

| Math o safle | Nifer yr Arolygiadau sydd ar y gweill yn 2015/16 |
|---|---|
| Cynhyrchwyr Cynradd | |
| Gweithgynhyrchwyr / Pecynwyr | **1** |
| Mewnforwyr / Allforwyr | |
| Dosbarthwyr / Cludwyr | |
| Archfarchnad / Goruwchfarchnad | |
| Manwerthwyr Bach | **4** |
| Manwerthwyr Eraill | **6** |
| Bwyty / Caffi / Ffreutur | **10** |
| Gwesty / Tŷ Llety | |
| Tafarn / Clwb | **4** |
| Safle Tecawê | **10** |
| Safle Gofal | **11** |
| Ysgol / Coleg | **5** |
| Uned Fwyd Symudol | **2** |
| Bwyty / Arlwywr arall | **1** |
| **Cyfanswm** | **114** |

Er y proffil hwn o safleoedd sy'n aros am arolygiad, dim ond 80 o sefydliadau a oedd wedi'u rhaglennu i'w harolygu yn 2015/16, ynghyd â nifer heb ei nodi o arolygiadau o'r flwyddyn flaenorol oedd dal heb eu cyflawni. Nid oedd amcangyfrifiad o'r nifer o fusnesau bwyd newydd a fyddai angen arolygiad safonau bwyd/ymyriad wedi'i ddarparu, er y disgwylir o leiaf 40 o ailymweliadau i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod y flwyddyn.

3.11 Nid oedd blaenoriaethau a thargedau ymyrryd yr awdurdod o fewn y Cynllun Gwasanaeth yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, er eu bod yn seiliedig ar risg.

3.12 Nodwyd yr adnoddau oedd ar gael i gyflawni gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth fel 3 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer hylendid bwyd, ac 1.5 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer safonau bwyd. Fodd bynnag, nid oedd y ffigurau hyn yn dangos p'un a oedd y rhain yn swyddogion proffesiynol neu weinyddol.

3.13 Nododd y Cynllun Gwasanaeth bod adnoddau hylendid bwyd wedi gostwng 20% yn ystod y flwyddyn flaenorol, fel rhan o'r rhesymeg ar gyfer ymdrin â sefydliadau risg is. Serch hynny, yn yr asesiad dynodi staff, nododd y Cynllun, "mae adnoddau staff yn fwy na digon i gyflawni'r rhaglen arolygu a gwaith arall".

3.14 Roedd yr awdurdod wedi nodi'r galw tebygol ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar y gwasanaethau bwyd, er nad oedd unrhyw alw wedi'i nodi ar gyfer cyngor i fusnesau nac ymateb i ddigwyddiadau / rhybuddion. Ni ddarparwyd amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ystod lawn o reolaethau swyddogol bwyd yn erbyn y rhai sydd ar gael, sy'n ofynnol.

3.15 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am Bolisi Gorfodi'r awdurdod, ei ddull o gynnal arolygiadau y tu allan i oriau a datblygiad staff. Roedd arwydd o'r galw tebygol ar yr awdurdod wrth ymateb i gwynion am fwyd, samplu bwyd a hysbysiadau rheoli clefydau heintus hefyd wedi'u cynnwys.

3.16 Roedd yr awdurdod yn cefnogi busnesau drwy ei ymrwymiad i Gynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref. Roedd y Cynllun Gwasanaeth hefyd yn nodi dulliau eraill y byddai'n eu defnyddio i sicrhau bod busnesau yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol.

3.17 Roedd trefniadau ar gyfer *'asesu ansawdd'* monitro mewnol wedi'u gosod ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, ac yn cynnwys monitro nifer ac ansawdd yr arolygiadau ac adroddiadau arolygu, ac arolygon cwsmeriaid cyfnodol.

3.18 Roedd costau cyffredinol darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd wedi'u darparu yn y Cynllun Gwasasnaeth. Er hynny, nid oedd tuedd wedi'i nodi ac nid oedd unrhyw ddadansoddiad o ran costau nad ydynt yn sefydlog megis staffio, teithio a chynhaliaeth, offer yn cynnwys buddsoddiad mewn TGCh a'r ddarpariaeth ariannol am gamau cyfreithiol.

3.19 Nododd y Cynllun Gwasanaeth sut y caiff perfformiad yr awdurdod o ran cyflawni rheolaethau swyddogol yn ymwneud â bwyd ei adolygu. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau monitro ar ddangosyddion perfformiad bob chwe mis i'r Aelod Gweithredol, ac adroddiadau bob chwe mis ar ddangosyddion perfformiad allweddol i'r Aelod Gweithredol dros

Llywodraethu Corfforaethol a Diogelwch Cymunedol.  Fodd bynnag, nid oedd adolygiad yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth blaenorol ar gael.

3.20 Nodwyd rhai amrywiadau wrth gyrraedd y targedau a osodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth blaenorol drwy gydol Cynllun Gwasanaeth 2015/16, ac ymrwymwyd i gyflawni'r ymyriadau a oedd yn hwyr. Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u nodi'n glir, ac nid oedd unrhyw resymau dros yr amrywiadau wedi'u nodi.

3.21 Roedd yr awdurdod wedi cynnwys rhestr gynhwysfawr o feysydd i'w gwella yn ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2015/16, a oedd yn cynnwys:

- Gwella amseroedd ymateb fel rhan o adrodd am Ddangosyddion Perfformiad;
- Gwella cywirdeb a dilysrwydd y gronfa ddata;
- Gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi;
- Gwella arferion gwaith, i wella effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaeth o ganlyniad i'r Adolygiad Rhaglen Gwella ar gyfer Cymru;
- Prosiectau neu fentrau newydd i wella ansawdd cyffredinol y bwyd a'r diod a gynhyrchir yn yr ardal neu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd;
- Ffyrdd y gall y gwasanaeth gorfodi bwyd gefnogi ac integreiddio'n well â mentrau corfforaethol megis y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant;
- Ffyrdd y gall y gwasanaeth gefnogi busnesau lleol yn well drwy ddarparu cyngor a hyfforddiant fel sy'n briodol, ac yn enwedig sut y gellir defnyddio arian yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynorthwyo busnesau lleol;
- Ffyrdd y gall y gwasanaeth gefnogi'r Asiantaeth Safonau Bwyd a mentrau allanol eraill.

Cadarnhawyd nad oedd y gwelliannau hyn yn cynnwys y rheiny ar gyfer mynd i'r afael ag amrywiadau o gynllun y flwyddyn flaenorol.

***Argymhellion***

3.22 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Hylendid a Safonau Bwyd y dyfodol yn unol â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, nid oedd dadansoddiad o gostau darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd wedi'u cynnwys, ynghyd ag amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]

(ii) Cynnal a chofnodi adolygiadau perfformiad o wasanaethau hylendid a safonau bwyd, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth, a chyflwyno'r rhain i'w cymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol neu fforwm aelodau perthnasol, fel sy'n briodol. [Y Safon – 3.2]

(iii) Sicrhau yr eir i'r afael â'r holl amrywiadau mewn Cynlluniau Gwasanaeth safonau bwyd dilynol. [Y Safon – 3.3]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig

4.1 Roedd y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi datblygu polisi ar gyfer rheoli dogfennau, a oedd wedi'i ymgorffori yn y Weithdrefn Awdurdodi, Cymhwysedd a Monitro Ansawdd. Nid oedd y polisi rheoli dogfennau wedi'i chofnodi ar gyfer y gwasanaeth safonau bwyd.

4.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu rhywfaint o bolisïau a gweithdrefnau cofnodedig er mwyn ategu'r gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd a gyflawnir. Roedd dogfennau wedi'u storio'n electronig neu fel copi caled yn system ffeilio'r tîm.

4.3 Roedd y rheolwyr yn gyfrifol am ddatblygu, adolygu a chymeradwyo dogfennau, ynghyd â sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn ar gyfer y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, ond hefyd fel sy'n briodol ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol. Roedd unigolion enwebedig hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff hen ddogfennau eu tynnu oddi yno.

4.4 Roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod gan swyddogion fynediad at bolisïau a gweithdrefnau, deddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ar gopi caled neu'n electronig ar y we.

4.5 Heblaw am Bolisi Gorfodi'r Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, ni nodwyd unrhyw ddogfennau a oedd wedi'u disodli yn ystod yr archwiliad.

***Argymhellion***

4.6 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u cofnodi ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y mae newidiadau i ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1]

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd cynllun diprwyo'r awdurdod wedi'i osod yn ei Gyfansoddiad. Roedd hyn yn rhoi'r gallu i'r Uwch Swyddog Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd awdurdodi swyddogion i ymarfer pwerau, fel sy'n briodol, yn unol â'u dyletswyddau a phwerau statudol y Cyngor. Roedd gan y Prif Swyddog yr awdurdod dirprwyedig i awdurdodi camau cyfreithiol.

5.2 Roedd gwybodaeth am awdurdodiadau swyddogion hylendid bwyd wedi'i chynnwys yng Ngweithdrefn Awdurdodi, Cymhwysedd a Monitro Ansawdd y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch. Roedd hyn yn gofyn bod awdurdodiadau'n seiliedig ar asesiad o gymhwysedd. Nid oedd unrhyw weithdrefn gofnodedig ar gael ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd.

5.3 Roedd swyddogion arweiniol wedi'u penodi ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd, a chlefydau trosglwyddadwy, ac roedd pob un ohonynt yn meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant angenrheidiol, ac yn gallu dangos bod ganddynt wybodaeth briodol.

5.4 Roedd gan y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch systemau ar waith i nodi anghenion hyfforddi swyddogion, gan gynnwys y rhaglen WorkSmart ac asesiadau gan Bennaeth y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch mewn trafodaeth â'r swyddog arweiniol. Roedd Cynlluniau Hyfforddi wedi'u datblygu'n flynyddol yn y gwasanaeth Safonau Bwyd yn dilyn asesiad o anghenion hyfforddiant gan Bennaeth y Tîm Safonau Masnach. Mae'r rhain wedi'u llywio gan werthusiadau staff blynyddol, sesiynau goruchwylio staff, ac adborth gan staff yn ystod cyfarfodydd tîm. Nid oedd unrhyw gofnodion o anghenion hyfforddiant diweddar ar gael ar gyfer aelodau unigol o staff yn yr un o'r ddau wasanaeth. Nododd yr archwilwyr bod cefnogaeth ar gael i swyddogion ennill cymwysterau proffesiynol pellach i'w galluogi nhw i gyflawni dyletswyddau ychwanegol o fewn y gwasanaeth.

5.5 Archwiliwyd cofnodion o awdurdodiadau, cymwysterau a hyfforddiant deg swyddog a oedd yn rhan o gyflenwi rheolaethau bwyd swyddogol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

5.6 Er nad oedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni gwasanaeth safonau bwyd yr awdurdod yn erbyn y rheiny oedd ar gael, nododd yr archwilwyr bod 1.5

swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn wedi'u dynodi i gyflawni'r gwasanaeth. Wrth ystyried diffygion yr awdurdod wrth gyflawni ymyriadau safonau bwyd, trafododd yr archwilwyr yr angen i asesu p'un a oedd yr adnodd sydd wedi'i ddynodi yn ddigonol.

5.7 Roedd y swyddogion wedi'u hawdurdodi dan y ddeddfwriaeth ofynnol, ac roedd swyddogion hylendid bwyd wedi'u hawdurdodi'n unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u harbenigedd. Roedd swyddogion safonau bwyd wedi'u hawdurdodi mewn modd generig, heb unrhyw asesiad cofnodedig o gymhwysedd na chyfyngiadau ar ddefnydd o bwerau unigol. At hynny, roedd yr awdurdod wedi trefnu bod yr ASB yn awdurdodi nifer addas o swyddogion dan Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1995.

5.8 Rhoddodd yr awdurdod dystiolaeth o awdurdodiadau swyddogion a oedd yn cyd-fynd â'u cymwysterau ar gyfer pob swyddog ond dau; ac roedd y ddau'n swyddogion safonau bwyd.

5.9 Roedd pob swyddog hylendid bwyd ond un wedi derbyn y lleiafswm o 10 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n ofynnol dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gweithdrefnau'r awdurdod.

5.10 Roedd yr awdurdod wedi darparu cofnodion cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer yr holl swyddogion hylendid bwyd. Cadarnhaodd y cofnodion bod swyddogion a oedd yn cyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd wedi derbyn hyfforddiant yn asesu HACCP, rheoli croeshalogi a rhoi sgoriau risg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion am gymwysterau ar gael ar gyfer swyddogion safonau bwyd.

**Argymhellion**

5.11 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd yn seiliedig ar eu cymhwysedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu dyrannu i gyflawni rheolaethau swyddogol safonau bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iii) Sicrhau bod pob swyddog hylendid bwyd awdurdodedig yn derbyn y lefel isaf o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.4]

(iv) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau perthnasol eraill ar gyfer pob swyddog safonau bwyd awdurdodedig, yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5]

**6 Cyfleusterau ac Offer**

6.1 Roedd gan yr awdurdod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd, ac roeddent wedi'u storio'n briodol ac yn hygyrch i'r swyddogion perthnasol. Fodd bynnag, nid oedd gweithdrefn wedi'i datblygu ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw offer i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol.

6.2. Roedd gan swyddogion sy'n gyfrifol am gyflawni'r gwasanaeth hylendid bwyd thermomedau prob unigol, ac roedd ganddynt fynediad at thermomedr cyfeirio a oedd yn cael ei raddnodi'n allanol yn flynyddol.

6.3 Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i gadarnhau bod gwiriadau'n cael eu cyflawni'n rheolaidd i wirio bod offer monitro tymheredd, oergelloedd a rhewgelloedd yn gweithio'n effeithiol, yn groes i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Hysbysodd y Swyddogion Arweiniol ar gyfer Hylendid Bwyd yr archwilwyr y gallant gyflawni gwiriadau graddnodi gan ddefnyddio'r thermomedr prob cyfeirio os oedd gan swyddogion bryder ynghylch cywirdeb y thermomedrau.

6.4 Roedd cronfeydd data sefydliadau bwyd yr awdurdod yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan yr ASB. Cynhaliwyd nifer o wiriadau yn ystod yr archwiliad a gadarnhaodd fod cronfeydd data'r awdurdod yn galluogi adroddiadau cywir.

6.5 Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw'n rheolaidd o'r gronfa ddata sefydliadau, ynghyd â dogfennau electronig eraill a ddefnyddiwyd mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, fel nad oedd data'n cael ei golli.

6.6 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith i sicrhau parhad busnes a lleihau niwed drwy atal neu leihau effaith digwyddiadau diogelwch. Mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, roedd swyddogion wedi cael cyfrineiriau unigol ac roedd mynediad cyfyngedig ar gyfer cofnodi a dileu data ar sail unigol. Roedd protocolau mewnbynnu data hefyd ar waith, a thrafodwyd unrhyw faterion yn ystod cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau cysondeb.

***Argymhellion***

6.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff offer ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi yn gywir, ac na chaiff ei ddefnyddio unwaith y canfyddir ei fod yn ddiffygiol. I gefnogi'r dasg hon, dylid sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn gofnodedig, a ddylai gynnwys adnabod offer, tystiolaeth o gynnal a chadw a graddnodi, a chanlyniadau unrhyw wiriadau wrth iddynt gael eu defnyddio. [Y Safon – 6.2]

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd

***Hylendid Bwyd***

7.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod yn manylu ar yr ymyriadau hylendid bwyd i ddod yn 2015/16 yn ôl y math o sefydliad, ond nid yn ôl sgôr risg.

7.2 Yn 2014/15 roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod drwy LAEMS fod 97.73% o'r busnesau bwyd categori A-E a oedd yn disgwyl cael eu harolygu wedi'u harolygu, a bod 93.94% o fusnesau bwyd yn ‘cydymffurfio i raddau helaeth’ â chyfraith hylendid bwyd (heb gynnwys busnesau heb sgôr a'r rhai a oedd y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn yn cynrychioli gwelliant o tua 1.31% o 92.63% o fusnesau y cofnodwyd eu bod yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' yn ystod y flwyddyn flaenorol.

7.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau cofnodedig gyda'r nod o sefydlu dull cyson o gyflawni rheolaethau swyddogol mewn perthynas ag ymyriadau hylendid bwyd. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y weithdrefn yn cyfeirio at yr angen i amlygu meysydd o bryder yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd y bydd angen mynd i'r afael â nhw mewn ymweliadau yn y dyfodol. Roedd y weithdrefn yn hyrwyddo defnyddio strategaethau gorfodi amgen mewn sefydliadau Categori D, sy'n groes i ofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.4 Mae'r awdurdod hefyd wedi datblygu polisi ailymweld; ond nododd yr archwilwyr nad oedd yn rhoi canllawiau i swyddogion ar amserlenni ailymweliadau ar ôl canfod materion sylweddol.

7.5 Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod cyn yr archwiliad ar y safle yn nodi bod cyfanswm o 104 o sefydliadau a oedd yn hwyr yn derbyn ailymweliad hylendid bwyd o fwy na 28 diwrnod. O'r rhain, roedd 33 yn sefydliadau risg uwch Categori A-C h.y. tri yng Nghategori A a B, a 30 yng Nghategori C. Roedd yr amserlen yn amrywio o 1 mis hyd at 2.5 mis ar ôl y dyddiad bwriadedig. Roedd gweddill y sefydliadau a oedd yn hwyr yn derbyn ymyriad yn rhai risg is. Er hynny, dangosodd y data a ddarparwyd gan yr awdurdod ei fod wedi mabwysiadu dull yn seiliedig ar risg o reoli ei raglen ymyriadau hylendid bwyd.

7.6 Roedd yr awdurdod wedi datgan yn ei Gynllun Gwasanaeth y byddai rhai sefydliadau risg Categori D yn destun gweithgarwch heb arolygiad, neu'n destun strategaeth orfodi amgen. At hynny, roedd rhai sefydliadau wedi'u categoreiddio fel "dim risg y gellir ei arolygu", gyda'r bwriad o adolygu eu gweithgarwch bob 5 mlynedd. Nid yw unrhyw rai o'r dulliau hyn yn llwyr unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.7 Roedd yr awdurdod wedi datblygu dwy ffurflen *aide-memoire* ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd er mwyn helpu swyddogion yn ystod eu harolygiadau o fusnesau bwyd. Roedd y ffurflenni *aide-memoire* mewn perthynas â gweithrediadau risg uchel / arlwyo a siopau cig; yn y drefn honno. Roedd ffurflen adrodd am Arolygiad Bwyd, Iechyd a Diogelwch hefyd wedi'i datblygu ar gyfer rhoi gwybodaeth i weithredwyr busnesau bwyd ar ddiwedd pob ymyriad.

7.8 Yn ystod yr archwiliad archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â deg sefydliad bwyd. Roedd yr hanes yn ffeiliau naw sefydliad yn cadarnhau bod y rhain wedi'u harolygu dros y blynyddoedd diwethaf ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd un sefydliad risg uchel wedi'i arolygu ddau fis ar ôl y dyddiad bwriadedig. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd fod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad hwn.

7.9 Roedd cofnodion arolygu ar gael yn naw o'r deg achos a archwiliwyd gan archwilwyr. Yn yr achos arall, nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y swyddog wedi cofnodi arsylwadau mewn perthynas ag ymyriad blaenorol.

7.10 Yn y deg achos a archwiliwyd, roedd saith ffeil yn cynnwys digon o wybodaeth i gadarnhau bod maint a graddfa'r busnesau wedi'u hasesu'n addas. Roedd pump o'r ffeiliau'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth ar y math o weithgarwch bwyd a gyflawnwyd gan y busnes, gan gynnwys unrhyw offer, prosesau neu nodweddion arbennig.

7.11 Nid oedd yr wybodaeth yr oedd swyddogion wedi'i chofnodi ar ffurflenni *aide memoire* yn ddigon i ddangos y cyflawnwyd asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes mewn perthynas â gofynion yn ymwneud â HACCP yn saith o'r deg ffeil a archwiliwyd. Yn y tri achos arall, roedd manylder yr wybodaeth a gofnodwyd ar ffurflenni *aide memoire* yn

briodol i alluogi archwilwyr i gadarnhau bod asesiadau trylwyr wedi'u cynnal, o ystyried natur y gweithrediadau bwyd a gyflawnwyd.

7.12 Nid oedd yr wybodaeth yr oedd swyddogion wedi'i chofnodi ar ffurflenni *aide-memoire* arolygu yn ddigonol i ddangos bod elfennau craidd cynlluniau HACCP wedi'u cadw yn y ffeil yn saith o'r achosion perthnasol a archwiliwyd. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau yn wyth o'r naw achos perthnasol a archwiliwyd nad oedd digon o fanylion ar y ffurflenni *aide-memoire* i ddangos bod swyddogion a'r staff cyfrifol wedi trafod monitro a chamau unioni ar y Pwyntiau Rheoli Critigol lle bo'n briodol.

7.13 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod hyfforddiant hylendid pobl sy'n trin bwyd wedi'i asesu, ac roedd gwybodaeth am drafodaethau rhwng swyddogion ac unigolion nad oedd yn weithredwyr busnesau bwyd wedi'u cofnodi ar ffurflenni *aide-memoire* lle bo hynny'n briodol mewn wyth o'r deg achos a archwiliwyd. Roedd manylion cyflenwyr ar gael mewn saith o'r deg ffeil a archwiliwyd, ond nid oedd unrhyw gofnod ar y ffurflenni *aide-memoire* i ddangos bod ID/Marciau Iechyd ar gyfer deunyddiau crai wedi'u gwirio, ac nid oedd unrhyw gofnod o asesu unrhyw fwyd wedi'i fewnforio. Cadarnhaodd y cofnodion arolygu bod swyddogion wedi cynnal asesiad priodol o effeithiolrwydd mesurau rheoli croeshalogi mewn wyth o'r naw achos perthnasol. Fodd bynnag, yn yr achos arall, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio o'r wybodaeth yn y ffeil p'un a oedd bwyd amrwd a bwyd parod i'w fwyta'n cael ei drin ai peidio, ac felly p'un a oedd y swyddog wedi gwneud asesiad digonol o effeithiolrwydd mesurau rheoli croeshalogi y busnes.

7.14 Nodwyd bod yr awdurdod wedi gwneud gwelliannau'n ddiweddar i'w ddull o gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau, a gwelwyd hyn yn y ffeiliau archwilio diweddaraf.

7.15 Ym mhob achos, roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau yn dilyn ymyriad gan swyddog yn gyson â chanfyddiadau'r swyddog yn y ffeil. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod sgoriau risg yn cael eu cyflwyno ar ôl ymyriad ym mhob achos.

7.16 Roedd yr awdurdod wedi nodi bod angen ailymweliad â thri o'r deg achos a archwiliwyd. Roedd cofnodion ar gael i gadarnhau bod y tri wedi bod yn destun ailymweliad, ac y cymerwyd camau gorfodi priodol. Mewn dau o'r achosion a archwiliwyd, cynhaliwyd ailymweliadau

prydlon, ond yn yr achos arall, sy'n sefydliad Categori A, cynhaliwyd yr ailymweliad yn hwyr. At hynny, mewn dau o'r tri achos a archwiliwyd mewn perthynas ag ailymweliadau, nododd yr archwilwyr y dylai nodiadau cyfoes y swyddog gynnwys arsylwadau mewn perthynas ag asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol yn ystod yr ailymweliad, ac y dylai'r swyddog nodi'r dyddiad a'i lofnodi. Nododd yr archwilwyr nad oedd y swyddog mewn un achos wedi diweddaru cronfa ddata electronig yr awdurdod gyda manylion yr ailymweliad.

7.17 Mewn wyth achos, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau ar ymweliadau dilynol yr aethpwyd i'r afael â thramgwyddau o ymweliadau blaenorol, a bod yr awdurdod wedi cymryd camau priodol mewn perthynas â thramgwyddau sy'n codi'n aml.

7.18 Roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod i'r ASB cyn yr archwiliad fod saith o sefydliadau cymeradwy yn ei ardal. Cynhaliwyd gwiriadau archwilio ar chwe ffeil copi caled o'r saith sefydliad cymeradwy. Cadarnhaodd yr archwilwyr bod y ffeiliau'n cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl canllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth allweddol megis crynodeb o weithgarwch y busnes, gwybodaeth am y cyflenwr, dogfennau HACCP, rhestrau cynhyrchion, cynlluniau brys ar gyfer galw cynnyrch yn ôl, a gwybodaeth gyswllt ar gael bob tro, neu nid oeddent wedi'u cadw'n gyfredol.

7.19 Roedd hanesion arolygu'r sefydliadau cymeradwy yn cadarnhau eu bod, yn gyffredinol, wedi'u harolygu yn ôl yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

7.20 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddarllenadwy ar gyfer pob sefydliad bwyd a archwiliwyd. Fodd bynnag, roedd y swyddogion archwilio diweddaraf wedi defnyddio'r ffurflen *aide-memoire* arolygu risg uchel cyffredinol. Mae hyn yn groes i weithdrefn yr awdurdod sy'n gofyn i swyddogion ddatblygu cynllun pwrpasol o wiriadau cyn cynnal ymweliad.

7.21 Er bod y swyddogion wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ar ffurflenni *aide-memoire*, nid oedd y manylder yn ddigon i alluogi'r archwilwyr i wirio y cynhaliwyd arolygiad cwmpas llawn, nac y cyflawnwyd asesiadau trylwyr o ofynion cydymffurfio mewn perthynas ag olrhain a HACCP.

7.22 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn yr arolygiad diweddaraf yn gyson â chanfyddiadau’r arolygiad. Ond mewn perthynas ag un sefydliad, lle roedd sgôr risg wedi'i gostwng o categori C i categori B, nid oedd wedi'i chymeradwyo gan uwch reolwr, sy'n groes i weithdrefn yr awdurdod.

7.23 Roedd yr awdurdod wedi dilyn y gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo yn unol â rheoliadau rheolaethau swyddogol yn gywir ym mhedwar o'r chwe achos a archwiliwyd. Yn y ddau achos arall, lle rhoddwyd cymeradwyaeth amodol, ni chyflawnwyd ailarolygiad i wirio cydymffurfiaeth â gofynion gweithredol o fewn y cyfnod gofynnol o dri mis. Serch hynny, rhoddwyd cymeradwyaeth lawn o fewn chwe mis yn y ddau achos.

7.24 Mewn un achos lle'r oedd sefydliad wedi dod â gweithrediadau i ben ers dros chwe mis, nid oedd y busnes wedi ildio ei gymeradwyaeth. Cynghorodd yr archwilwyr yr awdurdod i gysylltu â'r busnes i ofyn iddo ildio ei gymeradwyaeth.

7.25 Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer cadw gwyliadwriaeth o sefydliadau risg is. Fodd bynnag, nid oedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cyflwyno'r cynllun Strategaeth Orfodi Amgen.

7.26 Bu i'r archwilwyr asesu saith achos lle roedd defnydd o Strategaeth Orfodi Amgen wedi'i gofnodi. Yn chwech o'r saith ffeil a archwiliwyd, roedd digon o gofnodion yn nodi sut cyflawnwyd y Strategaeth Orfodi Amgen.

7.27 Yn chwech o'r saith achos a archwiliwyd, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod arolygiad cychwynnol wedi digwydd cyn i'r busnes dderbyn sgôr risg a bod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen. Yn yr achos arall, nid oedd tystiolaeth bod y busnes wedi bod yn destun sgôr risg cyn ei gynnwys yn y cynllun Strategaeth Orfodi Amgen. At hynny, roedd y busnes wedi derbyn sgôr risg ar ôl cwblhau holiadur hunanasesu.

7.28 Mewn pump o'r saith ffeil lle roedd cofnodion Strategaeth Orfodi Amgen, roedd digon o dystiolaeth i ddangos y cymerwyd camau dilynol ar ôl derbyn holiadur hunanasesu. Yn un o'r achosion, dylai'r wybodaeth a dderbyniwyd ar y ffurflen hunanasesu wedi arwain at ymweliad gan yr awdurdod i wirio a ddylai'r sefydliad fod yn rhan o'r cynllun Strategaeth

Orfodi Amgen. Yn yr achos arall, roedd sefydliad wedi derbyn sgôr risg yn dilyn arolygiad cychwynnol, ac wedi'i gategoreiddio fel "dim risg y mae modd ei arolygu". Mae hyn yn groes i ofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

***Argymhellion***

7.29 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau sefydliadau bwyd eu cynnal ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]

(iv) Sefydlu a chyflwyno gweithdrefnau ar gyfer yr ystod lawn o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir, gan gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen. Diwygio a gweithredu ei weithdrefnau mewn perthynas ag arolygu sefydliadau bwyd ac ailymweld â nhw. [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.30 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiadau'r awdurdod o gydymffurfiaeth y busnesau bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.31 Roedd y swyddogion yn hyddysg am y busnesau ac yn gallu cyfleu dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ym mhob safle. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiad trwyadl a'u bod wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog mewn modd priodol, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i weithredwyr y busnesau bwyd.

7.32 Mewn perthynas ag un o'r ymweliadau dilysu; nododd yr archwilwyr bod cwmpas gweithgarwch y safle wedi newid ers yr ymweliad diwethaf. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y swyddogion wedi nodi'r newid hwn, ac wedi trefnu cyfarfod dilynol â gweithredwr y busnes bwyd i drafod a chyflwyno mesurau rheoli effeithiol mewn perthynas â'r newid hwn mewn gweithgarwch.

***Safonau Bwyd***

7.33 Roedd yr awdurdod wedi adrodd drwy system LAEMS bod 703 o sefydliadau yn ei gronfa ddata sefydliadau bwyd yn 2014/15. Roedd y proffil sgoriau risg fel a ganlyn; tri Categori A, 95 Categori B, 454 Categori C a 151 heb sgôr. Nododd yr archwilwyr bod proffil y sefydliadau oedd â sgôr yn cyd-fynd â gwybodaeth am y ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol wedi bod mewn sefydliadau heb sgôr o'i gymharu â 2012/13.

7.34 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2015/16 yn cynnwys tabl yn gosod nifer y sefydliadau bwyd yn ôl sgoriau risg a oedd yn disgwyl ymyriad yn y flwyddyn nesaf. Nodwyd yn y tabl bod 114 o sefydliadau yn aros am ymyriad, ond nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarparodd yr awdurdod drwy ganlyniadau LAEMS y llynedd.

7.35 Yn ystod yr archwiliad, dywedodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer safonau bwyd nad oedd gan yr awdurdod raglen arolygu safonau bwyd wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn, ond bod ymyriadau'n cael eu cyflawni mewn ymateb i gwynion. Roedd yr awdurdod wedi gohirio ei rhaglen arolygu er mwyn targedu adnoddau at ddatblygu system gynllunio bwydlenni ar gyfer cartrefi nyrsio a phreswyl yn yr ardal.

7.36 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn arolygu'n ddiweddar a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y dull o gyflawni arolygiadau safonau masnach. Roedd cyflwyno'r weithdrefn wedi'i ohirio

wrth aros i gyfuno'r gwasanaeth safonau masnach ag awdurdod lleol cyfagos. At hynny, nid oedd gweithdrefnau wedi'u datblygu i osod dull y Strategaeth Orfodi Amgen nac ar gyfer cyflawni ailymweliadau gorfodi, ond roedd cod wedi'i greu yn y gronfa ddata ar gyfer cofnodi tramgwyddau sylweddol.

7.37 Roedd ffurflen ôl-arolygu, a oedd hefyd yn gweithredu fel adroddiad o ymweliad, yn cael ei defnyddio gan swyddogion er mwyn cofnodi canfyddiadau arolygiad. Fodd bynnag, nid oedd digon o le ar y ffurflen i gasglu'r arsylwadau a wnaed sy'n angenrheidiol wrth gynnal asesiad cwmpas llawn o gydymffurfiaeth busnes gyda gofynion sy'n berthnasol i safonau bwyd.

7.38 Roedd cynllun asesu risg Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol (LACORS) yn cael ei ddefnyddio yn dilyn arolygiad i bennu sgôr risg busnesau. Wrth asesu cydymffurfiaeth yn erbyn y cynllun, roedd swyddogion yn ystyried yr ystod o weithrediadau safonau masnach. Felly nid oedd yn bosibl gwirio p'un a oedd y sgoriau'n adlewyrchu risg safonau bwyd busnes yn briodol.

7.39 Yn yr archwiliad, aethpwyd ati i archwilio cofnodion yn y gronfa ddata ar gyfer deg sefydliad bwyd a oedd wedi bod yn destun arolygiad. Dangosodd y cofnodion bod y swyddogion wedi ystyried gofynion safonau bwyd yn ystod ymweliadau arolygu chwech o'r sefydliadau. Yn y pedwar sefydliad arall, nid oedd unrhyw dystiolaeth i wirio bod arolygiad safonau bwyd wedi'i gynnal.

7.40 Roedd ffurflenni arolygu y chwe sefydliad wedi'u cysylltu â'r gronfa ddata. Er bod y ffurflenni'n rhoi dangosydd cyffredinol o ba agweddau o ddeddfwriaeth safonau bwyd a ystyriwyd, nid oedd swyddogion wedi casglu digon o wybodaeth i gadarnhau cwmpas yr arolygiad.

7.41 Roedd y nodiadau diweddaraf o'r arsylwadau arolygu ar gofnodion diffyg cydymffurfio yn unig. O ganlyniad, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio lefel yr asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion safonau bwyd. At hynny, nid oedd yr adroddiadau'n cynnwys lefel briodol o fanylder i gadarnhau maint, graddfa a natur gweithgarwch bwyd y busnesau.

7.42 Mewn perthynas â dau sefydliad, roedd cofnodion arolygu yn dangos bod ailymweliadau gorfodi yn ofynnol er mwyn gwirio bod y

'tramgwyddau sylweddol' a ganfuwyd wedi'u cywiro. Roedd cofnod ar gael i gadarnhau y cynhaliwyd ailymweliad mewn un achos, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ailymweliad wedi digwydd yn yr achos arall. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth ar gael i ddangos bod y swyddog wedi cynnal ymchwiliadau dilynol priodol i wirio tarddiad bwyd yr oedd y busnes wedi'i gaffael.

7.43 Cyn yr archwiliad hysbysodd yr awdurdod bod 352 o sefydliadau bwyd yn yr ardal wedi bod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen. Cyflwyno cyngor ysgrifenedig ar faterion safonau bwyd oedd y Strategaeth Orfodi Amgen, ond nid oedd hyn yn darparu mecanwaith addas ar gyfer monitro cydymffurfiaeth barhaus â gofynion safonau bwyd.

7.44 Archwiliwyd cofnodion deg sefydliad a oedd wedi bod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen. Nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio a oedd saith o'r sefydliadau hyn yn gymwys am Strategaeth Orfodi Amgen, gan nad oedd y cynllun sgorio risg yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd y tri sefydliad arall wedi derbyn arolygiad cychwynnol. Mae'n rhaid i sefydliad fod yn destun arolygiad cychwynnol ffurfiol a derbyn sgôr risg cyn cael ei gynnwys mewn Strategaeth Orfodi Amgen.

***Argymhellion***

7.45 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd yn yr ardal yn cael eu cynnal ar amlder nad yw’n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Carry out interventions / inspections including Alternative Enforcement Strategies (AES) in accordance with the Food Law Code of Practice and centrally issued guidance. [The Standard – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith; a chymryd camau priodol ar ddiffyg cydymffurfio yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 7.3]

| | |
|---|---|
| (iv) | Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod lawn o ymyriadau safonau bwyd a gynhelir ganddo. [Y Safon – 7.4] |
| (v) | Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] |

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.46 Yn ystod yr archwiliad, nid oedd modd cyflawni ymweliadau dilysu safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd gan nad oedd digon o swyddogion perthnasol ar gael.

## 8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd

8.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2015/16 yn nodi polisi'r awdurdod o ran ymchwilio i gwynion am fwyd a safleoedd bwyd. Yn benodol, nodwyd y caiff 'cwynion mewn perthynas â materion statudol eu harchwilio fel sy'n briodol, a hysbysir yr achwynydd am ganlyniadau'r ymchwiliadau'. Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cydnabod bod cwynion yn rhan bwysig o strategaeth ymyrryd yr awdurdod, yn enwedig mewn sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhaglen arolygu.

8.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer Cwynion ac Ymholiadau Safonau Masnach, a oedd yn manylu ar y trefniadau gweinyddol ar gyfer derbyn ac ymdrin â chwynion ac ymholiadau. Roedd y weithdrefn yn berthnasol i gwynion ac ymholiadau mewn perthynas â materion safonau bwyd, ac roedd yn cyfeirio at gytuneb gwasanaeth yr awdurdod â Chyngor ar Bopeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn nodi'r broses ar gyfer ymchwilio i gwynion nac yn cynnwys gwybodaeth ar ymdrin â chwynion ynghylch bwyd a gynhyrchir y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

8.3 Nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi ei weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion hylendid bwyd. Fodd bynnag, hysbysodd y Swyddog Arweiniol y caiff cwynion neu geisiadau am wasanaeth eu cofnodi yn y gronfa ddata, a rhoddir amser ymateb targed gan y swyddog sy'n ymchwilio. Roedd amseroedd ymateb yn cael eu pennu gan swyddogion yn seiliedig ar y risg diogelwch bwyd posibl a oedd yn gysylltiedig â'r gŵyn.

8.4 Gofynnwyd am gofnodion ar gyfer deg cwyn hylendid bwyd a saith cwyn safonau bwyd a dderbyniwyd gan yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Hylendid Bwyd***

8.5 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio o'r wybodaeth a oedd ar gael ar gyfer y deg cwyn hylendid bwyd yr ymchwiliwyd i wyth ohonynt yn briodol. Mewn perthynas â'r ddau gŵyn arall, bu oedi o dros chwe wythnos cyn ymweld â'r sefydliad bwyd mewn un achos, ac nid oedd yr achos arall wedi'i gwblhau'n foddhaol.

### *Safonau Bwyd*

8.6 Cadarnhaodd gwiriadau archwilio o'r cofnodion mewn perthynas â'r saith cwyn safonau bwyd yr ymatebwyd i bob un yn amserol ac yr ymchwiliwyd iddynt yn briodol. Serch hynny, nododd yr archwilwyr nad oedd unrhyw gofnod mewn un achos i wirio bod y gŵyn wedi dod at sylw'r Prif Awdurdod.

8.7 Lle bo'n berthnasol, roedd tystiolaeth bod yr achwynwyr wedi cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau mewn perthynas â phob cwyn hylendid bwyd a safonau bwyd, a bod yr awdurdod wedi cymryd camau a oedd yn unol â'i Bolisi Gorfodi.

### *Argymhellion*

8.8 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn gofnodedig mewn perthynas â chwynion hylendid bwyd, a diwygio'r weithdrefn Cwynion ac Ymholiadau Safonau Masnach i nodi ei ddull o ymchwilio i gwynion, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas â bwyd o wledydd eraill. [Y Safon – 8.1]

(ii) Sicrhau y caiff pob cwyn mewn perthynas â materion hylendid bwyd ei hymchwilio iddi'n drylwyr ac mewn modd amserol. [Y Safon – 8.2]

## 9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Gosodwyd ymrwymiad yr awdurdod i'r Cynllun Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ei Bolisïau Gorfodi a'i Gynllun Gwasanaeth.

9.2 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod cyfrineiriau wedi'u rhoi i swyddogion gorfodi cyfraith bwyd er mwyn eu galluogi i gael mynediad at wefan y Prif Awdurdod.

9.3 Roedd ystyriaethau'r Prif Awdurdod wedi'u cynnwys mewn rhai gweithdrefnau, er enghraifft gweithdrefnau samplu a rhybuddion bwyd y gwasanaeth safonau bwyd.

9.4 Er nad oedd unrhyw gytundebau Prif Awdurdod ar waith gan yr awdurdod, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio ei fod, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod gorfodi, yn ystyried canllawiau’r Prif Awdurdod ac yn mynd i'r afael â materion o bryder gyda Phrif Awdurdodau, fel y bo’n briodol.

9.5 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol ar waith, ond roedd cofnodion a archwilwyd yn dangos bod cyngor amserol a chywir wedi ei roi i fusnesau, a'i fod wedi ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol eraill.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu cyngor ar hylendid bwyd a safonau bwyd i fusnesau. Roedd tystiolaeth i ddangos bod cyngor wedi'i roi yn ystod ymyriadau, yn ogystal ag ar gais, a hynny yn ysgrifenedig a thrwy ymweliadau cynghori os nad oedd y busnes wedi dechrau masnachu eto. Roedd ceisiadau busnesau am wybodaeth a chyngor wedi'u cofnodi ar gronfa ddata'r awdurdod.

10.2 Roedd yr wybodaeth am ddiogelwch bwyd a oedd ar wefan yr awdurdod yn cynnwys cyngor ar ddechrau busnes, cofrestru, E.coli, sefydliadau cymeradwy, rheoleiddio a'r Wythnos Diogelwch Bwyd.

10.3 Roedd yr awdurdod hefyd wedi rhoi dolenni at y Sefydliad Safonau Masnach ar ei wefan er mwyn cynnig cyngor busnes ar ystod gynhwysfawr o faterion safonau bwyd.

10.4 Roedd swp-lythyrau *(mailshots)* wedi'u targedu at y busnesau bwyd perthnasol ar faterion megis cyngor ar labelu mewn ieithoedd tramor, a chyngor ar alergenau i sefydliadau arlwyo.

10.5 Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd yr awdurdod wedi elwa ar gyllid gan yr ASB i gynorthwyo busnesau â datblygu eu systemau rheoli diogelwch bwyd, darparu cyngor ychwanegol i fusnesau lle nad Saesneg yw'r iaith gyntaf, a hwyluso cyrsiau hyfforddi hylendid bwyd i bobl sy'n ymdrin â bwyd.

## 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd

11.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig a oedd yn darparu gwybodaeth sylfaenol ar y dull y dylid ei ddefnyddio i sicrhau cywirdeb y gronfa ddata safonau bwyd. Nid oedd llawer o wybodaeth fanwl ar gael am y gweithgarwch i sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei rhoi ar waith, na bod data'n cael ei gadw'n gyfredol. Roedd rhywfaint o drefniadau ar gyfer y gronfa ddata hylendid bwyd i sicrhau ei bod yn gyfredol, megis gwiriadau ansawdd ar y data sy'n cael ei fewnbynnu. Serch hynny, nid oedd unrhyw weithdrefn gofnodedig ar gael i gasglu'r ystod lawn o weithgarwch gofynnol i sicrhau bod y gronfa ddata'n cael ei chadw'n gyfredol.

11.2 Dewisodd yr archwilwyr ddeg sefydliad bwyd ar hap yn ardal yr awdurdod o'r Rhyngrwyd. Roedd pob un wedi'i gynnwys yng nghronfeydd data sefydliadau ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, ac wedi'u cynnwys yn y rhaglen ymyrraeth hylendid bwyd.

***Argymhellion***

11.3 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau cofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data hylendid bwyd a safonau bwyd yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

## 12 Arolygu a Samplu Bwyd

12.1 Roedd yr awdurdod wedi penodi Dadansoddwr Cyhoeddus i archwilio samplau bwyd, ac roedd ganddo gytundeb ffurfiol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol. Roedd y labordai penodedig wedi'u hachredu ac roeddent ar y rhestr gydnabyddedig o labordai swyddogol dynodedig y DU.

12.2 Roedd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2015/16 yn nodi dull eang yr awdurdod ar gyfer samplu bwyd, a'r cyllid sydd ar gael. Roedd hefyd yn nodi bod llwythi gwaith samplu disgwyliedig wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella Gwasanaeth bob tîm.

12.3 Roedd ymrwymiad yn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd i hysbysu gweithredwyr busnesau bwyd am ganlyniadau samplu, ac i gofnodi gwybodaeth samplu ar System Arolygu Bwyd y Deyrnas Unedig (FSSiNet).

12.4 Roedd y Cynllun Gwasanaeth Bwyd yn nodi y caiff y Polisi a'r rhaglen Samplu Microbiolegol Bwyd eu hadolygu, ac y gall gwaith samplu newid drwy'r flwyddyn yn seiliedig ar brosiectau samplu cenedlaethol neu ranbarthol, ynghyd â gwybodaeth *(information)* a gwybodaeth *(intelligence)* a gesglir yn lleol. Ar gyfer 2015/16, nodwyd y byddai'r rhaglen samplu hylendid bwyd yn canolbwyntio ar fwyd a gynhyrchir neu a werthir mewn sefydliadau sydd heb eu cynnwys yn y rhaglen arolyu.

12.5 Roedd Polisi Samplu Bwyd Microbiolegol yr awdurdod yn nodi dan ba amgylchiadau y byddai samplau'n cael eu cymryd, ac roedd yn cadarnhau ei gyfraniad mewn arolygon cenedlaethol a rhanbarthol yn ogystal â thargedu dŵr, iâ a bwydydd parod i'w bwyta risg uchel o sefydliadau cymeradwy a sefydliadau gweithgynhyrchu eraill. Nodwyd nad oedd y polisi samplu yn ystyried materion Prif Awdurdod ac nid oedd trefniadau ar gyfer samplu tu allan i oriau wedi'u cynnwys.

12.6 Er nad oedd gweithdrefn samplu na rhaglen samplu fanwl wedi'u cofnodi, roedd y rhaglen samplu wedi'i sefydlu'n dda yn ymarferol. Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr awdurdod wedi cymryd rhan mewn nifer o arolygon samplu Cymru gyfan, gan gynnwys yr arolwg basged siopa. Yn ogystal, roedd sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd yn cael eu blaenoriaethu ynghyd â sefydliadau Categori D ac E a oedd yn

disgwyl ymyrriad rheolaethau swyddogol. Trafododd yr archwilwyr fuddiannau cofnodi'r rhaglen samplu microbiolegol.

12.7 Cadarnhaodd y Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Rheoli Plâu 2015/16 bod 250 o samplau bwyd microbiolegol wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn.

12.8 Roedd gweithdrefn samplu safonau bwyd wedi'i datblygu a oedd yn gosod y trefniadau gweinyddol ar gyfer ymdrin â samplau, yr offer sydd ar gael, a threfniadau storio ar gyfer cynhyrchion darfodus. Roedd ystyriaethau'r Prif Awdurdod hefyd wedi'u cynnwys yn y weithdrefn. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar gynnwys mwy o'r trefniadau ymarferol ar gyfer samplu, gan gynnwys cysondeb tystiolaeth, selio, labeli a phecynnu samplau. Nid oedd polisi na rhaglen samplu safonau bwyd wedi'u datblyu.

12.9 Yn ogystal ag ariannu ei broses samplu safonau bwyd ei hun, roedd yr awdurdod wedi gweithio ar y cyd ag awdurdodau cyfagos i wneud ceisiadau llwyddiannus am gyllid gan yr ASB.

12.10 Roedd yr awdurdod wedi cymryd rhan mewn nifer o arolygon samplu safonau bwyd cenedlaethol.

***Hylendid Bwyd***

12.11 Yn ystod yr archwiliad, archwiliwyd cofnodion deg sampl a gyflwynwyd er mwyn cynnal dadansoddiadau microbiolegol arnynt. Roedd pob un wedi'i gymryd gan staff a swyddogion awdurdodedig a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol, ac roedd canlyniadau'r samplu ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd. Roedd tystiolaeth bod busnesau wedi cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol, ac roedd swyddogion wedi cymryd y camau dilynol priodol ym mhob achos perthnasol.

***Safonau Bwyd***

12.12 Archwiliwyd y cofnodion yn ymwneud â deg sampl safonau bwyd. Roedd y samplau wedi'u cymryd gan staff a swyddogion awdurdodedig a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol, ac roedd canlyniadau'r dadansoddiadau ar gael ym mhob achos. Nododd yr archwilwyr bod camau dilynol wedi bod yn arbennig o drylwyr mewn perthynas â chanlyniadau anfoddhaol.

***Argymhellion***

12.13 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno polisi a rhaglen samplu safonau bwyd sy'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac sy'n cyfeirio at ei ddull gweithredu mewn perthynas â rhaglenni samplu cenedlaethol. Diwygio'r Polisi Samplu Bwyd Microbiolegol i gyfeirio at y Prif Awdurdod a'i ddull o samplu tu allan i oriau swyddfa [Y Safon – 12.4]

(ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn ar gyfer samplu microbiolegol a diwygio'r weithdrefn samplu safonau bwyd i gynnwys gwybodaeth am drefniadau caffael a phrynu samplau, cysondeb tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio dan ei reolaeth. [Y Safon – 12.5]

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd yr awdurdod wedi nodi swyddogion arweiniol ar gyfer clefydau trosglwyddadwy a oedd wedi mynd i ddigwyddiadau fel rhan o Raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.

13.2 Roedd Cynllun Rheoli Achosion wedi'i ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol ac wedi'i gymeradwyo i'w fabwysiadu gan Weithrediaeth yr awdurdod. Roedd y cynllun yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan grŵp amlasiantaeth, a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Nododd yr archwilwyr nad oedd y cynllun yn cynnwys manylion cysylltiadau lleol.

13.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith ar gyfer ymateb i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd y tu allan i oriau swyddfa. Ni phrofwyd y trefniadau hyn fel rhan o'r archwiliad.

13.4 Roedd yr awdurdod wedi cynhyrchu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau a gludir gan fwyd, a nododd yr archwilwyr bod yr awdurdod yn dilyn yr arferion gorau yn y maes hwnm drwy nodi'r cysylltiadau posibl rhwng achosion achlysurol a sefydliadau bwyd yn yr ardal gan ddefnyddio dogfen dracio.

13.5 Archwiliwyd hysbysiadau yn ymwneud â deg achos achlysurol o glefydau heintus sy’n gysylltiedig â bwyd. Roedd swyddogion wedi cwblhau holiaduron yn gynhwysfawr mewn naw o'r deg achos. Nid oedd yr achos arall wedi ymateb i geisiadau'r swyddogion i gysylltu â nhw.

13.6 Mewn naw o'r deg achos a archwiliwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr awdurdod wedi cadw cofnodion digonol a phriodol. Mewn un achos, nid oedd cofnodion i ddangos y camau gweithredu y swyddog ar gael yn y ffeil achos.

13.7 Mewn wyth o'r deg achos, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio o'r cofnodion a oedd ar gael bod ymchwiliadau trylwyr ac amserol wedi'u cyflawni gan swyddogion cymwys. Mewn dau achos, a oedd yn cynnwys cyswllt teuluol, roedd y cofnodion yn dangos na gymerwyd camau dilynol priodol mewn perthynas â busnes a oedd yn ffynhonell haint posibl yn ystod ymchwiliad.

13.8 Nid oedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod am unrhyw achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

***Argymhellion***

13.9 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio'r Cynllun Rheoli Achosion i sicrhau ei fod yn cynnwys cysylltiadau lleol perthnasol a chyfredol. [Y Safon – 13.1]

(ii) Sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus ei rhoi ar waith ym mhob achos. Yn benodol, cynnal ymchwiliadau trylwyr gan gynnwys p'un a gymerwyd camau i gael gwared ar ffactorau datgelu mewn sefydliadau bwyd a effeithiwyd arnynt; yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a pholisi gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 13.2]

(iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion mewn perthynas â rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3]

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd y gwasanaeth Safonau Bwyd wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer ymdrin â rhybuddion bwyd, a oedd yn cyfeirio at rybuddion bwyd a oedd wedi codi yn ardal yr awdurdod. Dylid diwygio'r weithdrefn i gynnwys manylion swyddogaethau a chyfrifoldebau, a chynnwys ymatebion i ddigwyddiadau na hysbyswyd drwy rybudd neu drwy drefniadau cyswllt tu allan i oriau.

14.2 Er nad oedd y gwasanaeth hylendid bwyd wedi cofnodi'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â rhybuddion a digwyddiadau bwyd, profwyd y trefniadau'n llwyddiannus yn ystod digwyddiad diweddar a ddigwyddodd y tu allan i oriau.

14.3. Archwiliwyd cofnodion mewn perthynas â chwe rhybudd bwyd er gweithdredu gan yr ASB yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd yr awdurdod wedi derbyn pob un yn electronig ac roedd cofnodion ar gael i gadarnhau yr ymatebwyd mewn modd priodol.

14.4 Roedd camau gweithredu'r awdurdod wedi'u cofnodi, ac roedd yr ohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost gan swyddogion yn ymwneud â rhybuddion bwyd, wedi'u cadw ac yn hawdd cael gafael arnynt. Nid oedd cofnodion o'r penderfyniadau i beidio â gweithredu mewn ymateb i rai rhybuddion wedi'u cadw yn ffeiliau'r digwyddiadau.

***Argymhelliad***

14.5 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu a chynnal gweithdrefnau gwasanaeth hylendid bwyd, a datblygu'r weithdrefn safonau bwyd gofnodedig ymhellach ar gyfer cyhoeddi ac ymateb i rybuddion bwyd, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys trefniadau cysylltu tu allan i oriau. [Y Safonau – 14.1 ac 14.4]

## 15 Gorfodi

15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi adrannol, a oedd yn cynnwys gweithrediadau rheoleiddio a weithredir gan y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd hwn yn aros i gael ei adolygu'n derfynol a'i gymeradwyo gan Aelod Gweithredol. Roedd y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch hefyd wedi datblygu Polisi Gorfodi a oedd wedi'i gymeradwyo'n flaenorol gan yr Aelod Gweithredol a oedd angen ei adolygu.

15.2 Roedd y polisïau wedi'u datblygu i raddau helaeth yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. Fodd bynnag, nid oedd y Polisi Gorfodi adrannol yn cynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl gamau gorfodi, ac nid oedd polisi'r Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch yn cynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio Hysbysiadau Camau Unioni. At hynny, nid oedd y meini prawf ar gyfer cyflwyno hysbysiadau statudol yn cynnwys cyflwyno Hysbysiad Camau Unioni mewn amgylchiadau lle byddai hynny'n briodol.

15.3 Roedd cyflwyno cyngor mewn sefydliadau a oedd yn eiddo i'r cyngor wedi'i gynnwys ym Mholisi Gorfodi'r Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, ond nid oedd datganiad ar y dull gorfodi mewn sefydliadau o'r fath.

15.4 Nid oedd gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau gorfodi unigol wedi'u datblygu ar gyfer y rhan fwyaf o'r opsiynau gorfodi oedd ar gael. Fodd bynnag, roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn Ffeiliau Erlyn a gweithdrefn Prosesu Ymchwiliadau ar gyfer y Gwasanaeth Safonau Masnach, ac roedd safonau bwyd wedi'i gynnwys yn ei gwmpas. Roedd y gweithdrefnau'n gosod y trefniadau ar gyfer paratoi ffeil achos i'w ystyried wrth ddechrau erlyniad. Roedd angen diweddaru'r gweithdrefnau i adlewyrchu'r trefniadau cyfredol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ffeiliau achos. Nid oedd gweithdrefn wedi'i chymeradwyo ar gyfer erlyniadau hylendid bwyd.

15.5 Dangosodd yr awdurdod ei fod yn ymrwymo i ddefnyddio cosbau gorfodi anffurfiol a rhai ffurfiol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid a safonau bwyd, ac roedd wedi nodi mewn dogfennau cyn yr archwiliad ei fod wedi cymryd y camau gorfodi ffurfiol canlynol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad:

- 21 o Hysbysiadau Gwella Hylendid;
- 17 o Gytundebau Cau yn Wirfoddol;
- 7 achos o Ildio Bwyd yn Wirfoddol;
- 7 rhybudd syml;
- 4 penderfyniad i erlyn

15.6 Dangosodd archwiliad o gofnodion y gronfa ddata bod gan yr awdurdod bump sefydliad oedd â sgôr o '0' (angen gwella ar frys) dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Nid oedd y rhain wedi bod yn destun camau gorfodi ffurfiol. Nododd yr archwilwyr bod un wedi cau'n wirfoddol, ond nid oedd cynnydd mewn camau gorfodi wedi digwydd. Cymerwyd camau gweithredu i gau 16 sefydliad bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad o achos amgylchiadau hylendid gwael. Roedd pob un o'r rhain wedi'u cau drwy ddefnyddio gweithdrefnau gwirfoddol. Roedd pedwar erlyniad wedi digwydd yn yr un cyfnod o ddwy flynedd. Lle nodwyd tramgwyddau hylendid difrifol, rhoddodd yr archwilwyr gyngor ynghylch yr angen i ddogfennu penderfyniadau yn unol â'i Bolisi Gorfodi.

15.7 Edrychodd yr archwilwyr ar naw Hysbysiad Gwella Hylendid. Canfuwyd bod pob un wedi bod yn briodol, ac roedd manylion y tramgwyddau a ganfuwyd a'r mesurau yr oedd angen eu cymryd i gydymffurfio wedi'u nodi. Mewn chwe achos, roedd yr awdurdod wedi cynnal gwiriadau cydymffurfio amserol. Yn y tri achos arall, nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi gwirio cydymffurfiaeth â'r hysbysiadau mewn modd amserol. Roedd yr amserlen ar gyfer gwiriadau yn amrywio o 1 i 4 mis ar ôl y dyddiad cydymffurfio a nodwyd ar yr hysbysiad, sy'n groes i ofynion canllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Ym mhob un o'r naw achos, nid oedd tystiolaeth ar gael i nodi bod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno; sy'n groes i ofynion canllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

15.8 Ym mhob achos ond un, roedd yr awdurdod wedi cymryd camau dilynol priodol. Roedd cydymffurfiaeth wedi'i chadarnhau'n ysgrifenedig i weithredwyr busnesau bwyd mewn saith achos. Mewn un achos, nid oedd yn glir yn y cofnodion a oedd ar gael p'un a gydymffurfiwyd â'r hysbysiad.

15.9 Mewn un achos, roedd y busnes bwyd wedi gofyn am amser ychwanegol i gydymffurfio, a chytunwyd i roi estyniad. Er hynny, nid oedd yr hysbysiad wedi'i dynnu'n ôl na'i ailgyflwyno'n ffurfiol, sy'n groes i ofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

15.10 Cafodd cofnodion naw cytundeb cau'n wirfoddol eu harchwilio. Ym mhob un o'r naw achos, roedd cau'n wirfoddol yn gam priodol ac wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig ar ffurflenni ymweld. Roedd y ffurflenni wedi'u cymeradwyo gan y swyddog a gweithredwr y busnes bwyd. Nodwyd nad oedd yr awdurdod yn gofyn i weithredwyr busnesau bwyd lofnodi ymrwymiad na fyddent yn ailagor heb gymeradwyaeth y swyddog ac y byddent yn colli hawl i iawndal drwy gynnig cau yn wirfoddol. Ym mhob achos perthnasol ond un, roedd swyddogion wedi cofnodi ar ffurflenni ymweld, a oedd wedi'u llofnodi gan swyddogion a gweithredwyr y busnesau bwyd, y gallai sefydliadau bwyd ailagor ar ôl cau'n wirfoddol. Er bod swyddogion wedi hysbysu y caiff safleoedd eu monitro'n rheolaidd er mwyn gwirio eu bod yn parhau i fod ar gau, nid oedd y gwiriadau hyn wedi'u cofnodi yn y gronfa ddata nac yn llyfrau nodiadau'r swyddogion. Nododd yr archwilwyr bod yr holl gofnodion mewn perthynas â chau'n wirfoddol yn eglur ac yn hawdd cael gafael arnynt.

15.11 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio ar gofnodion chwe achos lle roedd yr awdurdod wedi adrodd y defnyddiwyd pwerau ffurfiol i atal ac atafael *(seize)* bwyd. Daeth yr archwilwyr i'r casgliad na ddefnyddiwyd pwerau ffurfiol yn unrhyw un o'r achosion. Ym mhedwar o'r achosion, cymerwyd camau gwirfoddol i dynnu bwyd rhag ei werthu, ac yn y ddau achos arall roedd y swyddog wedi cymryd y bwyd fel tystiolaeth.

15.12 Archwiliwyd cofnodion mewn perthynas â'r tri achos lle adroddodd yr awdurdod ei fod wedi defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i dynnu bwyd nad oedd yn addas i'w fwyta gan bobl o'r gadwyn fwyd. Roedd tystiolaeth ym mhob achos i ddangos bod y camau a gymerwyd yn briodol.

15.13 Mewn un achos, cadarnhaodd y cofnodion bod bwyd wedi'i ildio'n wirfoddol i'r awdurdod, a bod y swyddog perthnasol wedi cyflwyno derbynneb wedi'i llofnodi. Serch hynny, nid oedd tystiolaeth i wirio eu bod wedi cael gwared ar y bwyd i lefelau digonol i'w atal rhag dychwelyd i'r gadwyn fwyd. Mewn achos arall, nid oedd y bwyd wedi'i ildio, ond roedd gweithredwr y busnes bwyd wedi cael gwared arno adeg yr ymweliad. Yn yr achos arall, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio'r camau a gymerwyd i gael gwared ar y bwyd rhag ei werthu.

15.14 Cadarnhaodd archwiliad o'r cofnodion mewn perthynas â'r chwe Rhybudd Syml a gyflwynwyd gan yr awdurdod bod y camau a gymerwyd yn briodol ym mhob achos. Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod pob Rhybudd Syml wedi'i lofnodi gan Weithredwr y Busnes Bwyd a'i awdurdodi gan swyddog oedd â'r pwerau dirprwyedig angenrheidiol.

15.15 Roedd gwiriadau archwilio ffeiliau achos mewn perthynas â phedwar erlyniad hylendid bwyd llwyddiannus gan yr awdurdod hefyd yn cadarnhau bod y camau hyn yn rhai priodol, ac fe'u cymerwyd heb oedi diangen. Cawsant hefyd eu cymeradwyo gan swyddog oedd â'r awdurdod dirprwyedig angenrheidiol.

15.16 Trafododd yr archwilwyr bwysigrwydd cofnodi bod yr holl benderfyniadau i gyflwyno Rhybudd Syml neu ddechrau erlyniad wedi'u gwneud gan ddilyn y Prawf Cod Llawn ar gyfer Erlynwyr y Goron a chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Rybuddion Syml ar gyfer Troseddwyr sy'n Oedolion.

***Argymhellion***

15.17 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diwygio'r ddau bolisi gorfodi i gynnwys meini prawf ar ddefnyddio'r holl ddewisiadau gorfodi bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, i gyfeirio at orfodi yn sefydliadau'r Cyngor ac i sicrhau y caiff polisïau eu cymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol a'u rhoi ar waith yn llawn. [Y Safon – 15.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau gorfodi ar gyfer camau dilynol a gorfodi yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau swyddogol perthnasol. [Y Safon – 15.2]

(iii) Sicrhau y caiff camau gorfodi hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3]

(iv) Sicrhau y caiff penderfyniadau am gamau gorfodi ar gyfer tramgwyddau hylendid bwyd a safonau bwyd eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4]

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau

***Hylendid Bwyd***

16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys ffurflenni cofrestru, ffurflenni *aide-memoire* arolygu, ffurflenni ôl-arolygu a gohebiaeth yn cael eu storio gan yr awdurdod yn ei gronfa ddata sefydliadau bwyd electronig. Roedd manylion y dyddiad a'r math o ymyriad a gynhaliwyd mewn sefydliadau bwyd, yn ogystal â'r proffiliau risg a'r sgoriau hylendid bwyd, hefyd ar y system. Roedd gwybodaeth am sefydliadau bwyd a ddewiswyd i'w harchwilio ar gael yn hawdd ac roedd y mwyafrif o ddogfennau a oedd yn gysylltiedig â'r ymyriadau yn ddibynadwy ac roedd modd eu hadfer. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf ar gael ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.

16.2 Ym mhob achos a archwiliwyd, roedd ffurflenni cofrestru busnesau bwyd ar gael yn y ffeil. Roedd y dyddiad derbyn wedi'i nodi ar bum ffurflen cofrestru busnes bwyd fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

16.3 Roedd swyddogion yn defnyddio ffurflenni ôl-arolygu i roi gwybod i fusnesau bwyd am y canfyddiadau, a oedd yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Roedd yr adroddiadau hyn hefyd yn manylu ar gamau unioni i'w cymryd a'r amserlenni gofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â nodi unrhyw gamau dilynol yr oedd yr awdurdod yn bwriadu eu cymryd. Mewn naw o'r deg achos a archwiliwyd, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod swyddogion wedi darparu adroddiad o'u ffurflenni arolygu ar ddiwedd yr arolygiad.

16.4 Roedd ffurflenni adrodd ôl-arolygu a llythyrau arolygu yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth yr oedd angen ei darparu i weithredwyr busnesau bwyd dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd manylion ynghylch p'un a oedd samplau wedi'u casglu wedi'u cynnwys.

16.5 Nid oedd gweithdrefn gofnodedig Arolygu Safleoedd yr awdurdod yn darparu canllawiau i swyddogion ar amserlenni targed ar gyfer anfon llythyrau arolygu. Fodd bynnag, roedd y llythyron arolygu diweddaraf wedi'u darparu o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr arolygiad ym mhob un o'r 10 achos, ac roedd pob un yn nodi Sgôr Hylendid Bwyd a roddwyd i'r

busnes; fel sy'n ofynnol yn ôl y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Ym mhob un o'r deg achos, roedd gweithredwyr busnesau bwyd yn cael gwybod yn ysgrifenedig am eu hawliau statudol o ran y cynllun mewn perthynas ag apeliadau, ailymweliadau, a'r hawl i ymateb. Lle roedd cofnodion ar gael, roeddent yn hawdd eu hadfer ac yn cael eu cadw am chwe blynedd.

16.6 Yn wyth o'r deg achos, roedd llythyrau wedi'u hanfon at y brif swyddfa berthnasol lle bo'n briodol. Mewn dau achos, roedd y llythyrau wedi'u hanfon at gyfeiriad masnachu'r sefydliad yn hytrach na swyddfa gofrestredig y cwmni.

***Argymhelliad***

16.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir, ar ffurf y gellir ei adfer yn hawdd ar gyfer pob sefydliad bwyd. Dylai'r cofnodion gynnwys y dyddiad y daeth y ffurflenni cofrestru i law, adroddiadau am bob ymyriad / arolygiad, gan gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, p'un a gymerwyd samplau, ac i ba raddau roeddent yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol yn ôl y swyddogion, a'r camau a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]

***Safonau Bwyd***

16.8 Roedd yr awdurdod yn cadw ffurflenni ôl-arolygu safonau bwyd yn electronig yn y gronfa ddata. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â gweithgarwch ymyrryd, gan gynnwys y dyddiad, y math o ymyriad a'r categori sgôr risg LACORS hefyd yn cael eu cofnodi yn y gronfa ddata.

16.9 Dangosodd gwiriadau archwilio bod ffurflenni ôl-arolygu chwech o'r deg sefydliad lle'r oedd cofnodion yn nodi yr ystyriwyd gofynion safonau bwyd yn ystod yr arolygiad safonau masnach diweddaraf yn hawdd eu

hadfer ac yn ddarllenadwy. Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod cofnodion o'r fath yn cael eu cadw am chwe blynedd.

16.10 Roedd ffurflenni ôl-arolygu yn cael eu defnyddio i roi gwybod am ganfyddiadau arolygiadau i weithredwyr busnesau bwyd. Roedd y ffurflenni hyn yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i weithredwyr busnesau bwyd yn dilyn ymyriad, fel y nodir yn Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd gwybodaeth nad oedd wedi'i chynnwys mewn ffurflenni yn cynnwys y prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad, gwahaniaethu rhwng tramgwyddau ac argymhellion arfer da, amserlenni ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth, a pha ddogfennau a archwiliwyd. At hynny, nid oedd manylion cyswllt y swyddog arolygu a manylion uwch swyddog pe bai anghydfod wedi'u nodi.

***Argymhellion***

16.11 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ffurflenni ôl-arolygu safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi a gweithdrefn gwyno corfforaethol a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.

17.2 Ymdriniwyd â chwynion o dan weithdrefn dau gam, i ddechrau gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol ac wedyn, os nad oedd y cwsmer yn fodlon, gan y swyddog cwynion adrannol.

17.3 Er nad oedd unrhyw gŵyn wedi dod i law am wasanaethau safonau bwyd, daeth un gŵyn anffurfiol ar gyfer hylendid bwyd i law yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod trefniadau effeithiol ar waith yn y gwasanaeth i ymchwilio, ac i roi gwybod am ganlyniad ymchwiliadau i gwynion.

17.4 O ran hylendid bwyd, nododd archwilwyr fod manylion uwch swyddog wedi'u rhoi mewn gohebiaeth rhag ofn y byddai busnesau'n dymuno cwyno yn dilyn arolygiad neu ymyriad arall. Nid dyma oedd yr achos yn rheolaidd ar gyfer gohebiaeth safonau bwyd.

## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Adeg yr archwiliad, roedd yr awdurdod mewn cysylltiad ag awdurdod cyfagos i archwilio cyfleoedd cydweithio, ac roedd ganddynt drefniadau ar waith ag awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru i hwyluso gwaith gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson. Roeddent yn cynnwys:

- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru
- Tasglu Diogelwch Bwyd De-ddwyrain Cymru
- Grŵp Safonau Bwyd Gwent Fwyaf
- Grŵp Bwyd ac Amaethyddiaeth
- Grŵp Ffocws Safonau Bwyd a Labelu Cenedlaethol

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael ac yn cadarnhau presenoldeb cyson gan gynrychiolwyr gwasanaethau priodol.

18.3 Roedd trefniadau cyswllt hefyd ar waith â chydweithwyr mewn adrannau gwasanaeth eraill, gan gynnwys Cynllunio, Trwyddedu, Rheoli Adeiladau, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â chyrff allanol yn cynnwys:

:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Dŵr Cymru

## 19 Monitro Mewnol

19.1 Mae monitro mewnol yn bwysig i sicrhau y caiff targedau perfformiad eu cyflawni a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau.

19.2 Penaethiaid y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch a'r Tîm Safonau Masnach oedd yn gyfrifol am fonitro mewnol.

19.3 Roedd gweithdrefn monitro mewnol gofnodedig wedi'i datblygu ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar gael ei datblygu ymhellach i gynnwys gweithgarwch ychwanegol i ymyriadau rhagweithiol yn unol â'r Safon. Nid oedd gweithdrefn monitro mewnol gofnodedig wedi'i chynhyrchu ar gyfer y gwasanaeth safonau bwyd.

19.4 Nodwyd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Roedd trefniadau monitro mewnol meintiol ar waith er mwyn monitro perfformiad yn erbyn targedau, a oedd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth corfforaethol.

19.5 Roedd Pennaeth y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi adolygu'r ffeiliau arolygiadau hylendid bwyd, a chynnal arolygon cwsmeriaid yn unol â'r weithdrefn monitro mewnol. Roedd cwmpas yr arolwg cwsmeriaid diweddaraf wedi'i ehangu i gynnwys arolygiadau a gynhaliwyd gan y gwasanaeth safonau bwyd. Roedd cofnodion monitro mewnol wedi'u cadw gan ddarparu tystiolaeth o natur a maint y gweithgarwch monitro a oedd yn cael ei gyflawni.

19.6 Hysbyswyd yr archwilwyr bod arolygiadau ar y cyd wedi'u cynnal, ond nid oedd cofnodion ar gyfer y gweithgarwch monitro hwn ar gael, yn groes i weithdrefn y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch.

19.7 Yn ôl gweithdrefn y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn rhan hollbwysig o adborth ar ddilysu maint ac ansawdd gwaith arolygu. Dywedwyd wrth archwilwyr bod cynnydd swyddogion wrth gyrraedd targedau perfformiad, hyfforddiant ac agweddau ansoddol o'u gwaith wedi'u trafod mewn cyfarfodydd tîm ac yn ystod cyfarfodydd

goruchwylio unigol, ond nid oedd unrhyw gofnodion o gyfarfodydd ar gael i gadarnhau hyn.

19.8 Roedd rheolwyr yn monitro cronfeydd data sefydliadau bwyd yr awdurdod yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a bod data wedi'i gofnodi'n amserol.

19.9 Roedd swyddogion wedi mynychu hyfforddiant a ddarparwyd gan yr ASB ac yn fewnol, i sicrhau bod sgoriau risg hylendid bwyd a roddir yn gyson.

19.10 Roedd y cofnodion mewn perthynas â monitro mewnol a oedd ar gael yn cael eu cadw gan reolwyr am ddwy flynedd.

***Argymhelliad***

19.11 Dylai'r awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer safonau bwyd, a diwygio a chyflwyno'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer hylendid bwyd er mwyn cynnwys yr ystod lawn o reolaethau swyddogol. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ar gyfer y ddau wasanaeth. [Y Safon – 19.2]

(iii) Sicrhau y caiff yr holl waith monitro mewnol ei gofnodi, ac y caiff y cofnodion eu cadw am o leiaf dwy flynedd. [Y Safon – 19.3]

## 20 Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid

20.1 Ym mis Ionawr 2014, roedd yr awdurdod, yn yr un modd â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â dau archwiliad â ffocws gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E.coli 0157 yn ne Cymru ym mis Medi 2005 a Dulliau Awdurdodau Lleol o Reoli Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru. Mae'r adroddiadau archwilio â ffocws hyn ar gael drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring – cliciwch ar 'Cymraeg'

20.2 Roedd swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod, a oedd yn cynnwys gwasanaethau hylendid bwyd ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, wedi cael eu hadolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013/14. Roedd yr awdurdod wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb, ac wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cymunedau mwy Diogel am y canfyddiadau.

## 21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd

21.1 Roedd yr awdurdod wedi cyflawni nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid a safonau bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo diogelwch bwyd mewn ysgolion lleol;
- Datblygu cyngor am alergenau a bwyd cyffredinol i'r sector gofal ar y cyd ag Adran Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru;
- Hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol;
- Hyrwyddo cyngor safonau bwyd drwy TSI Interlink;
- Cymryd rhan yn yr Wythnos Diogelwch Bwyd Genedlaethol.

21.2 Roedd gwybodaeth am hylendid a safonau bwyd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau ar wefan yr awdurdod. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasu i hyrwyddo materion diogelwch bwyd.

21.3 Roedd cofnodion gweithgareddau hyrwyddo yn cael eu cadw gan y swyddogion arweiniol.

**Archwilwyr:**

**Archwilydd Arweiniol: Craig Sewell**

Archwilwyr: Daniel Morelli
Owen Lewis
Kate Thompson

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

**Atodiad A**

***Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen***
**Dyddiad Archwilio: 27 – 31 Gorffennaf 2015**

| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| 3.22 Dylai'r awdurdod; | | | |
| (i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Hylendid a Safonau Bwyd y dyfodol yn unol â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid cynnwys costau darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, ynghyd ag amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Mehefin 2017 (cynllun terfynol) Medi 2017 (wedi'i gymeradwyo gan aelodau) | Bydd y cynllun Cyflawni Gwasanaeth Cyfraith Bwyd 2017/18 yn cael ei gynhyrchu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth o hyn ymlaen, a bydd yn mynd i'r afael â meysydd penodol a sylwadau a nodwyd i'w gwella yn yr adroddiad archwilio mewn perthynas ag adnoddau a galw. | Parhaus |
| (ii) Cynnal a chofnodi adolygiadau perfformiad o wasanaethau hylendid a safonau bwyd, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth, a chyflwyno'r rhain i'w cymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol perthnasol neu fforwm aelodau perthnasol, fel sy'n briodol. [Y Safon – 3.2] | Mehefin 2017 (cynllun terfynol) Medi 2017 (wedi'i gymeradwyo gan aelodau) | Bydd Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Cyfraith Bwyd 2017/18 yn cynnwys manylion yr adolygiadau a gynhaliwyd mewn perthynas â pherfformiad y gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Bydd y cynllun sy'n cynnwys yr wybodaeth hon yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r aelod fforwm perthnasol. | Parhaus |
| (iii) Sicrhau yr eir i'r afael â'r holl amrywiadau mewn cynlluniau gwasanaeth safonau bwyd dilynol. [Y Safon – 3.3] | Mehefin 2017 (cynllun terfynol) Medi 2017 (wedi'i gymeradwyo gan aelodau) | Bydd Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Cyfraith Bwyd 2017/18 yn cynnwys manylion safbwynt y Cyngor o ran perfformiad yn erbyn cynllun y flwyddyn adrodd ddiwethaf ac unrhyw welliannau i'r gwasanaeth a nodwyd ynddo. Lle bo unrhyw amrywiadau mewn perthynas â pherfformiad a fwriadwyd ac a gyflawnwyd, bydd y rhain yn cael eu nodi'n llawn, gydag esboniad pam roedd perfformiad yn uwch neu'n is na'r targed a osodwyd. | Parhaus |

| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| 4.6 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sicrhau bod yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u cofnodi yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a phryd bynnag y mae newidiadau i ddeddfwriaeth neu i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 4.1] | Mawrth 2018 | Bwriedir cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl bolisïau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â'r gwasanaeth cyfraith bwyd fel rhan o'r rhaglen waith ar y cyd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yn rhan o'r broses hon, bydd system ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau yn cael ei sefydlu. | Parhaus |
| 5.11 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd yn seiliedig ar eu cymhwysedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 5.1] | Gorffennaf 2017 | Bydd adolygiad o asesiad cymhwysedd safonau bwyd, ac felly'r broses awdurdodi, yn cael ei gynnal. Bydd yr holl awdurdodiadau'n cael eu hadolygu, eu diweddaru a'u cofnodi o ganlyniad i hyn. | Parhaus |
| (ii) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu dyrannu i gyflawni rheolaethau swyddogol safonau bwyd. [Y Safon – 5.3] | Hydref 2015 | Ar 1 Hydref 2015, unodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn un gwasanaeth, ac mae hyn wedi ychwanegu gwydnwch i'r gwasanaeth.<br><br>Mae'r cynghorau yn cydnabod yr angen am ragor o adnoddau yn y maes hwn, ond nid ydynt yn gallu sicrhau rhagor o adnoddau ar hyn o bryd. Mae'r diffyg adnodd hwn wedi'i nodi yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd 2016/17. | Wedi’i gwblhau |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (iii) Sicrhau bod pob swyddog hylendid bwyd awdurdodedig yn derbyn y lefel isaf o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.4] | Rhagfyr 2016 | Mae'r awdurdod yn dal i fod yn hynod ymroddedig i hyfforddiant ac i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae swyddogion yn mynychu unrhyw hyfforddiant lleol a chost effeithiol. Caiff hyfforddiant ei adolygu drwy'r flwyddyn i sicrhau bod yr holl swyddogion yn derbyn hyfforddiant lle bo'n bosibl ac yn briodol i'r swyddog hwnnw.<br>Adeg yr archwiliad, roedd gan un swyddog naw awr o ddablygiad proffesiynol parhaus yn lle deg, ar ôl cyflawni mwy y flwyddyn flaenorol. Mae adolygiad parhaus nawr yn rhan o adolygiadau perfformiad chwarterol er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion yn cyflawni'r deg awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus. | Wedi'i gwblhau |
| (iv) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau perthnasol eraill pob swyddog awdurdodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | Ar waith adeg yr archwiliad. | Yn ystod archwiliad yr ASB, roedd un o'r swyddogion sy'n gyfrifol am Safonau Bwyd yn absennol, ac felly nid oedd modd cael mynediad at dystysgrifau Datblygiad Proffesiynol Parhaus adeg yr archwiliad. Mae systemau nawr ar waith i sicrhau bod mynediad at gofnodion hyfforddiant pan fo staff yn absennol. | Wedi'i gwblhau |
| 6.7 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sicrhau y caiff offer ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi yn gywir, ac na chaiff ei ddefnyddio unwaith y canfyddir ei fod yn ddiffygiol. I gefnogi'r dasg hon, dylid sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn gofnodedig, a ddylai gynnwys adnabod offer, tystiolaeth o gynnal a chadw a graddnodi, a chanlyniadau unrhyw | Mehefin 2017 | Mae thermomedrau maes newydd wedi'u darparu i'r holl staff perthnasol. Mae gweithdrefn ragnodi ar y cyd yn cael ei chynhyrchu ar gyfer Torfaen a Blaenau Gwent fel rhan o'r cydweithio. Bydd offer cyfeirio ar gyfer rhagnodi hefyd yn cael ei rannu fel rhan o'r trefniadau gweithio ar y cyd hyn. Caiff cynnal a chadw, rhagnodi a chael gwared ag offer diffygiol eu hystyried fel rhan o'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu mabwysiadu. | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| wiriadau wrth iddynt gael eu defnyddio. [Y Safon – 6.2] | | | |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| <u>**Hylendid Bwyd**</u><br><br>7.29 Dylai'r awdurdod<br><br>(i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau sefydliadau bwyd eu cynnal ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Mawrth 2018 | Nid yw hyn yn bosibl gyda'r adnoddau presennol, ac felly rydym wedi cymryd camau i flaenoriaethu arolygiadau/ymyriadau mewn safleoedd risg uchel. Bydd adolygiad o effaith y dull hwn a'r gofynion adnoddau presennol yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd. Bydd yr wybodaeth o'r adolygiad hwn yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Reolwyr i'w hystyried wrth gynllunio adnoddau blynyddol. Bydd yr awdurdod yn parhau i adolygu ac adrodd am ei gydymffurfiaeth yn erbyn ei rwymedigaethau blynyddol, fel rhan o'r broses cynllunio gwasanaeth cyfraith bwyd. | Parhaus |
| (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Mawrth 2018 | Mae'r system ar gyfer cynllunio ymyriadau ar gyfer dynodi arolygiadau mewn sefydliadau risg uchel wedi'i hadolygu a'i diwygio i sicrhau y caiff arolygiadau eu cyflawni ar yr amlder gofynnol.<br>Bydd adolygiad o'r gweithdrefnau a'r polisïau presennol (gan gynnwys gwaith papur ar gyfer cofnodi canfyddiadau o arolygiadau a'r polisi ailymweld presennol) yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd i sicrhau eu bod yn unol â'r holl ofynion cyfredol. Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant atgoffa ar gyfer yr uchod, i sicrhau y glynir at bolisïau/gweithdrefnau ac y caiff yr holl fanylion gofynnol eu cofnodi yn ystod arolygiadau. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno, sy'n cynnwys adolygiadau ffeiliau achos, a lle nodir gwyriadau bydd trafodaeth a hyfforddiant staff yn cael eu cynnal. | Parhaus |

| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| **(iii)** Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; a chymryd camau priodol ynghylch unrhyw ddiffyg cydymffurfio, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Mawrth 2018 | Gweler y sylw uchod mewn perthynas â phwynt 7.29 (ii). Yn ogystal â'r uchod, mae polisi gorfodi yn cael ei ddatblygu a bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â hyn. Bydd y polisi gorfodi diwygiedig yn ystyried yr opsiynau gorfodi yn dilyn ymyriad amgen. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno i sicrhau y glynir at y polisi gorfodi, ac y cymerir camau dilynol gan gynnwys gorfodi lle bo'n briodol. | Parhaus |
| (iv) Sefydlu a chyflwyno gweithdrefnau ar gyfer yr ystod lawn o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir, gan gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen. Diwygio a gweithredu ei weithdrefnau mewn perthynas ag arolygu sefydliadau bwyd ac ailymweld â nhw yn llawn. [Y Safon – 7.4] | Mawrth 2018 | Gweler y sylw uchod mewn perthynas â phwynt 7.29 (ii). | Parhaus |
| (v) Sicrhau bod arsylwadau a wneir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Mawrth 2018 | Gweler y sylw uchod mewn perthynas â phwynt 7.29 (ii). Lle mae monitro mewnol yn nodi unrhyw faterion o ran cofnodi data mewn modd amserol, byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain yn syth drwy drafodaeth a/neu drwy hyfforddi'r aelod o staff perthnasol. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| **<u>Safonau Bwyd.</u>** | | | |
| 7.45 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyrraeth a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Mawrth 2018 | Nid yw hyn yn bosibl gyda'r adnoddau presennol, ac felly rydym wedi cymryd camau i flaenoriaethu arolygiadau/ymyriadau mewn safleoedd risg uchel. Bydd adolygiad o effaith y dull hwn a'r gofynion adnoddau presennol yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd. Bydd yr wybodaeth o'r adolygiad hwn yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Reolwyr i'w hystyried yn ystod cynllunio adnoddau blynyddol. Bydd yr awdurdod yn parhau i adolygu ac adrodd am ei gydymffurfiaeth yn erbyn ei rwymedigaethau blynyddol, fel rhan o'r broses cynllunio gwasanaeth cyfraith bwyd. | Parhaus |
| (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau gan gynnwys Strategaethau Gorfodi Amgen yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Mehefin 2016 | Mae adroddiad ôl-arolygu newydd wedi'i gyflwyno sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) presennol, gan ei fod yn darparu'r holl wybodaeth ofynnol i'r busnes yn dilyn ymyriad. Mae cynllun sgorio risg ar gyfer cynllunio amlder ymyriadau a raglennir sy'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) nawr yn weithredol. Gallwch hefyd gyfeirio at y sylwadau a ddarparwyd uchod mewn perthynas â'r adnoddau sydd ar gael mewn perthynas ag ymyriadau a raglennir a'r camau i'w cymryd er mwyn mynd i'r afael â hyn. | Wedi'i gwblhau |
| | Mawrth 2018 | Mae'r cynllun Strategaeth Orfodi Amgen a oedd ar waith adeg yr archwiliad nawr yn cael ei adolygu i ddod â'r cynllun yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). | |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; a chymryd camau priodol ar ddiffyg cydymffurfio yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 7.3] | Gorffennaf 2017 | Mae swyddogion yn asesu cydymffurfiaeth yn ystod ymyriadau yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. Mae adolygiad o sut caiff hyn ei gofnodi i sicrhau bod modd dangos hyn ar ôl yr adolygiad yn parhau. Mae pro fforma arolygu diwygiedig ar gyfer casglu data yn ystod ymyriadau yn cael ei ddatblygu ar y cyd a chyngor cyfagos ar hyn o bryd, a bwriedir ei gyflwyno fel mater o frys. | Parhaus |
| | Medi 2017 | Mae polisi gorfodi ar y cyd newydd yn cael ei ddatblygu, a bydd staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â hyn. Bydd y polisi gorfodi diwygiedig yn ystyried yr opsiynau gorfodi yn dilyn ymyriad amgen. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno i sicrhau y glynir at y polisi gorfodi, ac y cymerir camau dilynol gan gynnwys gorfodi lle bo'n briodol. | Parhaus |
| (iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer yr ystod lawn o ymyriadau a gynhelir ganddo. [Y Safon – 7.4] | Mawrth 2018 | Bydd adolygiad o'r gweithdrefnau a pholisïau presennol (gan gynnwys gwaith papur ar gyfer cofnodi canfyddiadau arolygu a'r polisi ymweld cyfredol) yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd i sicrhau eu bod yn unol â'r gofynion cyfredol. Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant atgoffa ar y pwnc uchod i sicrhau y glynir at bolisïau/gweithdrefnau, ac y caiff yr holl fanylion gofynnol eu cofnodi yn ystod arolygiad. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno, sy'n cynnwys adolygiadau ffeiliau achos, a lle nodir gwyriadau bydd trafodaeth a hyfforddiant staff yn cael eu cynnal. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Trafodaeth gychwynnol – Awst 2015<br><br>Hyfforddiant atgoffa – Rhagfyr 2018<br><br>Mawrth 2018 | Cynhaliwyd sesiwn drafod ar ôl yr archwiliad er mwyn trafod y prif faterion a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Y nod yw ailadrodd yr ymarfer hwn gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o archwiliadau Blaenau Gwent a Thorfaen fel hyfforddiant atgoffa ar gyfer staff y ddau Gyngor. Bydd cydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion yn cael ei hasesu drwy fonitro mewnol.<br><br>Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno sy'n cynnwys adolygiadau ffeiliau achos, a bydd trafodaeth a hyfforddiant staff yn digwydd lle nodir gwyriadau mewn perthynas â diweddaru cofnodion. | Wedi'i gwblhau<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| 8.8 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn gofnodedig mewn perthynas â chwynion hylendid bwyd, a diwygio'r weithdrefn Cwynion ac Ymholiadau Safonau Masnach i nodi ei ddull o ymchwilio i gwynion, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas â bwyd o wledydd eraill. [Y Safon – 8.1]<br><br>(ii) Sicrhau y caiff pob cwyn mewn perthynas â materion hylendid bwyd ei hymchwilio iddi'n drylwyr ac mewn modd amserol. [Y Safon – 8.2] | Mawrth 2018 | Mae'r adolygiad blynyddol o bolisïau/gweithdrefnau mewn perthynas â'r gwasanaeth hylendid bwyd wedi'i gynnwys fel cam gweithredu parhaus yng Nghynllun Cyflawni y Gwasanaeth Cyfraith Bwyd. Bydd polisïau/gweithdrefnau'n cael eu diweddaru rhwng yr adolygiadau blynyddol lle bo angen. O ganlyniad i'r cydweithio rhwng Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen, mae adolygiad o'r holl bolisïau/gweithdrefnau wedi'u cynllunio ar gyfer 2017/18 er mwyn cynhyrchu un fersiwn o bob dogfen.<br><br>Fel rhan o'r gwaith uchod, bydd adolygiad o'r trefniadau monitro mewnol cyfredol yn cael ei gynnal a fydd yn cynnwys perfformiad yn erbyn amserau targed ar gyfer ymchwilio i gwynion. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 11.3 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau cofnodedig i sicrhau bod ei gronfeydd data hylendid bwyd a safonau bwyd yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2] | Mawrth 2018 | Mae gweithdrefnau data ar waith, ond byddant yn cael eu hadolygu a'u cofnodi fel sy'n briodol fel rhan o'r adolygiad o'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r gwasanaeth cyfraith bwyd, fel y nodwyd mewn perthynas â phwynt 8.8 uchod. | Parhaus |
| 12.13 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno polisi a rhaglen samplu safonau bwyd sy'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac sy'n cyfeirio at ei ddull gweithredu mewn perthynas â rhaglenni samplu cenedlaethol. Diwygio'r Polisi Samplu Bwyd Microbiolegol i gyfeirio at y Prif Awdurdod a'i ddull o samplu tu allan i oriau swyddfa [Y Safon – 12.4] | Mawrth 2018 | Mae'r adolygiad blynyddol o bolisïau/gweithdrefnau mewn perthynas â'r gwasanaeth hylendid bwyd wedi'i gynnwys fel cam gweithredu parhaus yn y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Cyfraith Bwyd. Bydd polisïau/gweithdrefnau'n cael eu diweddaru rhwng yr adolygiadau blynyddol lle bo angen. O ganlyniad i'r cydweithio rhwng Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Torfaen a Blaenau Gwent, mae adolygiad o'r holl bolisïau/gweithdrefnau wedi'i gynllunio ar gyfer 2017/18 i gynhyrchu un fersiwn o bob dogfen. Bydd hyn yn cynnwys adolygu gweithdrefnau samplu ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, a bydd yn ymgorffori'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefn ar gyfer samplu microbiolegol a diwygio'r weithdrefn samplu safonau bwyd i gynnwys gwybodaeth am drefniadau caffael a phrynu samplau, cysondeb tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio dan ei reolaeth. [Y Safon – 12.5] | Mawrth 2018 | Mae'r adolygiad blynyddol o bolisïau/gweithdrefnau mewn perthynas â'r gwasanaeth hylendid bwyd wedi'i gynnwys fel cam gweithredu parhaus yn y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Cyfraith Bwyd. Bydd polisïau/gweithdrefnau'n cael eu diweddaru rhwng yr adolygiadau blynyddol lle bo angen. O ganlyniad i'r cydweithio rhwng Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Thorfaen, mae adolygiad o'r holl bolisïau/gweithdrefnau wedi'i gynllunio ar gyfer 2017/18 er mwyn cynhyrchu un fersiwn o bob dogfen. Bydd hyn yn cynnwys adolygu gweithdrefnau samplu ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, a bydd yn ymgorffori'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr archwiliad. | Parhaus |
| 13.9 Dylai'r awdurdod<br>(i) Ddiwygio'r Cynllun Rheoli Achosion i sicrhau ei fod yn cynnwys cysylltiadau perthnasol lleol a chyfredol. [Y Safon – 13.1] | Gorffennaf 2015 | Roedd y Cynllun Rheoli Achosion wedi'i ddiweddaru'n flaenorol i gynnwys gwybodaeth gyswllt leol cyn y cynhaliwyd yr archwiliad. Ni ddarparwyd y fersiwn gyfredol i'r archwiliwr, ond aethpwyd i'r afael â hyn yn dilyn yr archwiliad, ac mae adolygiad o'r wybodaeth electronig sydd ar gael i swyddogion wedi'i gwblhau i sicrhau y caiff fersiynau eu rheoli, a bod fersiwn gyfredol y cynllun yn hawdd ei chanfod. | Wedi'i gwblhau |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (ii) Sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus ei rhoi ar waith ym mhob achos. Yn benodol, cynnal ymchwiliadau trylwyr gan gynnwys p'un a gymerwyd camau i gael gwared ar ffactorau datgelu mewn sefydliadau bwyd a effeithiwyd arnynt; yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a pholisi gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 13.2] | Gorffennaf 2015 | Mae'r ddau achos a amlygwyd yn ystod yr archwiliad wedi'u trafod â'r swyddog ymchwilio i sicrhau y trafodwyd y gwelliannau gofynnol fel gwersi i lywio arfer yn y dyfodol. | Wedi'i gwblhau |
| (iii) Sicrhau bod yr holl gofnodion mewn perthynas â rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 13.3] | Gorffennaf 2015 | Trafodwyd yr un achos a nodwyd yn ystod yr archwiliad lle'r oedd angen gwella mewn perthynas â sicrhau y caiff cofnodion yn y ffeilliau achos eu trafod â'r swyddog ymchwilio, i sicrhau bod y gwelliannau gofynnol o ran y dull yn cael eu hystyried fel gwersi i lywio arfer yn y dyfodol. | Wedi'i gwblhau |
| 14.5 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sefydlu a chynnal gweithdrefnau gwasanaeth hylendid bwyd, a datblygu'r weithdrefn safonau bwyd gofnodedig ymhellach ar gyfer cyhoeddi ac ymateb i rybuddion bwyd, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys trefniadau cysylltu tu allan i oriau. [Y Safonau – 14.1 ac 14.4] | Mawrth 2018 | Mae pob rhybudd bwyd yn cael ei dderbyn a'i adolygu gan nifer o swyddogion, a chaiff camau eu cymryd fel sy'n ofynnol yn ôl y rhybudd bwyd. Gan fod pob un yn wahanol, nid oes unrhyw broses ysgrifenedig benodol, er bod yr ymrwymiad cyffredinol mewn perthynas â rhybuddion bwyd wedi'i nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth mewn perthynas â threfniadau tu allan i oriau. Bydd y trefniadau'n cael eu cofnodi ymhellach mewn gweithdrefn ar wahân fel rhan o ddatblygu'r gweithdrefnau 'gweithio ar y cyd'. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 15.7 Dylai'r awdurdod<br>(i) Adolygu a diwygio'r ddau bolisi gorfodi i gynnwys meini prawf ar ddefnyddio'r holl ddewisiadau gorfodi bwyd yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol, ac i sicrhau y caiff polisïau eu cymeradwyo gan yr Aelod Gweithredol a'u rhoi ar waith yn llawn. [Y Safon – 15.1] | Medi 2017 | O ganlyniad i'r cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, mae'r polisi gorfodi wedi'i adolygu gyda'r nod o greu un polisi gorfodi. Mae'r drafft wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac yn mynd trwy'r broses gymeradwyo ffurfiol ar hyn o bryd. | Parhaus |
| (ii) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau gorfodi ar gyfer camau dilynol a gorfodi yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau swyddogol perthnasol. [Y Safon – 15.2] | Mawrth 2018 | Bydd adolygiad o'r gweithdrefnau a'r polisïau presennol (gan gynnwys gweithdrefnau ar opsiynau gorfodi) yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd i sicrhau eu bod yn unol â'r gofynion cyfredol. Bydd y staff yn derbyn hyfforddiant atgoffa ar y pwnc uchod i sicrhau y glynir at bolisïau/gweithdrefnau, ac y caiff yr holl fanylion gofynnol eu cofnodi yn ystod arolygiad. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno, sy'n cynnwys adolygiadau ffeiliau achos, a lle nodir gwyriadau bydd yr awdurdod yn trafod y mater â'r staff ac yn cynnal hyfforddiant. | Parhaus |
| (iii) Sicrhau bod camau gorfodi hylendid bwyd yn cael eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3] | Medi 2017 | Yn ogystal â'r uchod, mae polisi gorfodi ar y cyd yn cael ei ddatblygu a bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â hyn. Bydd y polisi gorfodi diwygiedig yn ystyried yr opsiynau gorfodi yn dilyn ymyriad amgen. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno i sicrhau y glynir at y polisi gorfodi, ac y cymerir camau dilynol gan gynnwys gorfodi lle bo'n briodol. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (iv) Sicrhau y caiff y penderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod. Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | Medi 2017 | Mae polisi gorfodi ar y cyd newydd yn cael ei ddatblygu, a bydd staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â hyn. Bydd y polisi gorfodi diwygiedig yn ystyried yr opsiynau gorfodi yn dilyn ymyriad amgen. Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno i sicrhau y glynir at y polisi gorfodi, ac y cymerir camau dilynol gan gynnwys camau gorfodi lle bo'n briodol, ac y caiff cofnodion eu cadw mewn perthynas â phenderfyniadau gorfodi. | Parhaus |
| 16.7 Dylai'r awdurdod<br>(i) Gynnal cofnodion cywir a chyfredol mewn ffurf y gellir ei adfer yn hawdd ar gyfer pob sefydliad bwyd perthnasol yn unol â'r Codau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog a manylion y camau a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | Gorffennaf 2015<br><br>Mawrth 2018 | Bydd adroddiadau arolygu yn cael eu darparu yn cynnwys yr wybodaeth yn Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar ôl pob arolygiad, a'u hanfon at y cyfeiriad busnes cywir. Bydd dogfennau cofrestru â'r dyddiad dod i law arnynt ar gyfer pob safle, a bydd unrhyw wyriadau o'r gweithdrefnau a osodwyd yn cael eu nodi yn ffeiliau'r sefydliadau.<br><br>Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu hadolygu a'u cyflwyno i sicrhau y caiff adroddiadau arolygu a chofnodion sefydliadau eu cynnal yn drylwyr. | Wedi'i gwblhau<br><br>Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 16.11 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sicrhau bod ffurflenni ôl-arolygu safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | Gorffennaf 2015 | Bydd adroddiadau arolygu yn cael eu darparu yn cynnwys yr wybodaeth yn Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar ôl pob arolygiad, a'u hanfon at y cyfeiriad busnes cywir. | Wedi'i gwblhau |
| | Mawrth 2018 | Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu hadolygu a'u cyflwyno i sicrhau y caiff adroddiadau arolygu a chofnodion sefydliadau eu cynnal yn drylwyr. | Parhaus |
| 19.11 Dylai'r awdurdod<br>(i) Sefydlu, cynnal a chyflwyno gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer safonau bwyd, a diwygio a chyflwyno'r gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer hylendid bwyd er mwyn adlewyrchu'r ystod lawn o reolaethau swyddogol. [Y Safon – 19.1] | Mawrth 2018 | Bydd adolygiad o'r gweithdrefnau a pholisïau presennol (gan gynnwys gweithdrefnau mewn perthynas â monitro mewnol) yn cael ei gynnal fel rhan o'r cynllun gweithio ar y cyd i sicrhau eu bod yn unol â'r gofynion cyfredol.<br><br>Mae'r Awdurdod yn rhan o ddatblygu pecyn monitro mewnol gyda'r ASB a'r Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd, a bydd y trefniadau monitro mewnol yn cael eu hadolygu ymhellach o ganlyniad i'r gwaith hwn. Bydd un gweithdrefn monitro mewnol yn cael ei datblygu rhwng Blaenau Gwent a Thorfaen fel rhan o'r trefniadau gweithio ar y cyd.<br><br>Bydd gweithdrefnau monitro mewnol yn cael eu cyflwyno, sy'n cynnwys adolygiadau ffeiliau achos, a lle nodir gwyriadau bydd trafodaeth â staff a hyfforddiant. | Parhaus |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| (ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ar gyfer y ddau wasanaeth [Y Safon – 19.2]. | Gorffennaf 2017 | Bydd y Cynllun Cyflawni Gwasanaeth Cyfraith Bwyd 2017/18 yn cael ei gynhyrchu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth o hyn ymlaen, a bydd yn cynnwys meysydd penodol a sylwadau a nodwyd i'w gwella yn yr adroddiad archwilio. | Parhaus |
| (iii) Sicrhau y caiff yr holl waith monitro mewnol ei gofnodi, ac y caiff y cofnodion eu cadw am o leiaf dwy flynedd. [Y Safon – 19.3] | Mai 2017 | Bydd cofnodion gweithgarwch monitro mewnol yn cael eu cadw am o leiaf dwy flynedd. | Parhaus |

**Atodiad B**

***Dull/Methodoleg yr Archwiliad***

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodolegau, fel a ganlyn:

***(1) Archwilio Polisïau a Gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol***

Cafodd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol eu harchwilio:

- Penderfyniad Gweithredol – Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd – Penodi dadansoddwr cyhoeddus
- Penderfyniad Gweithredol – Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd – Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2015/16
- Adroddiad i'r Aelod Gweithredol ar gyfer Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd – Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2015/16
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd – Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2015/16
- Y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch – Cynllun Gwella Gwasanaeth 2015/16
- Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, fersiwn 39, 24 Ebrill 2015
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gweithdrefn Arolygu Safleoedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gweithdrefn Cwynion am Fwyd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Gwneud cŵyn am fwyd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Polisi Samplu Bwyd Microbiolegol
- Cynllun Rheoli Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy ar gyfer Cymru, 2014
- Gweithdrefnau Bwyd, Iechyd ac Diogelwch, Cyfarwyddiadau Gwaith ID y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Samplu Bwyd Safonau Masnach
- Cwynion ac Ymholiadau Safonau Masnach
- Monitro'r gronfa ddata FLARE mewn perthynas â Safonau Bwyd
- Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, Gweithdrefn Cymhwysedd Awdurdodi a Monitro Ansawdd 2013
- Gweithdrefn Rhybudd Perygl Bwyd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd – Polisi Rheoleiddio a Gorfodi, Gorffennaf 2015
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, Polisi Gorfodi ar gyfer y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch
- Aelod Gweithredol Tai, Cynllunio a Diogelwch y Gymuned – Polisi Gorfodi Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, Rhagfyr 2009
- Gweithdrefn Cwynion am y Gwasanaeth

***(2) Adolygu Ffeiliau a Chofnodion***

Adolygwyd nifer o gofnodion yr awdurdod lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cofnodion sefydliadau bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd
- Cofnodion samplu bwyd
- Cofnodion gorfodi anffurfiol a ffurfiol
- Awdurdodiadau swyddogion a chofnodion hyfforddiant
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi *(calibration)*
- Cofnodion o hysbysiadau clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- Cofnodion digwyddiadau bwyd
- Cofnodion o'r cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd cyswllt allanol
- Deunyddiau cynghori a hyrwyddo a ddarperir i fusnesau a defnyddwyr

***(3) Adolygu cofnodion cronfeydd data:***

Ystyriwyd detholiad o gofnodion cronfeydd data yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw'r cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau bwyd, ymchwiliadau i gwynion am fwyd a sefydliadau bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, camau gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil.
- Asesu pa mor gyflawn a chywir yw'r gronfa ddata sefydliadau bwyd.
- Asesu gallu'r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**(4)** ***Cyfweliadau â swyddogion***

Cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion er mwyn cael rhagor o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn ymarferol. Cyfwelwyd â'r swyddogion canlynol:

Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Pennaeth y Tîm Bwyd ac Iechyd a Diogelwch
Uwch Swyddog Masnachu Teg
Uwch Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, gan gynnwys y swyddog sy'n bennaf gyfrifol am glefydau trosglwyddadwy,
Swyddogion Diogelwch Bwyd

Caiff barn a safbwyntiau a godwyd yn ystod cyfweliadau â'r swyddogion eu cadw'n gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

***(5) Ymweliadau dilysu ar y safle:***

Cynhaliwyd ymweliadau gwirio â swyddogion mewn dau sefydliad bwyd lleol. Prif bwrpas yr ymweliadau hyn oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth hylendid bwyd â'r gofynion perthnasol.

**Atodiad C**

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Archwilio Rhyng-awdurdod | System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig. |
| Archwiliwr Bwyd | Unigolyn â'r cymwysterau angenrheidiol i gynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Arolygiad | Archwiliad o sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Awdurdod Cartref | Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw. |
| Awdurdod Gwreiddiol | Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Busnes heb sgôr | Busnes bwyd wedi'i nodi gan awdurdod fel un sydd |

| | |
|---|---|
| | heb gael asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |
| Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol | Cymdeithas o brif swyddogion safonau masnach. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd. |
| Cofrestru | Proses gyfreithiol sy'n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu'r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd. |
| CPIA (The Criminal Porcedures and Investigations Act) | Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol. |
| Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru | Sefydliad o swyddogion sy'n arwain Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn awdurdod lleol Cymru. |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol. |
| Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Cynllun sgorio busnesau bwyd sy'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd<br>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth |

- Cynllun Monitro
- Cynllun Archwilio

Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

| | |
|---|---|
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog sydd â'r cymwysterau angenrheidiol a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd. |
| Fforwm aelodau | Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. |
| Ffurflenni OCD (Official Control of Foodstuffs Directive) | Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd. |
| Gweithiwr Proffesiynol / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hollbwysig, o safbwynt |

| | |
|---|---|
| | diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel. |
| Hylendid Bwyd / Bwyd Anifeiliaid | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd / bwyd anifeiliaid. |
| Hysbysiad Camau Unioni | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd er mwyn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses hyd nes y bydd gwaith penodedig wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd. |
| Hysbysiad Gwella Hylendid | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid. |
| LAEMS | System electronig yw System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. |
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol. |
| Prif Awdurdod | Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw. |
| Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru | Grŵp o gynrychiolwyr proffesiynol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| Pwynt Rheoli Critigol | Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae mesurau rheoli yn hanfodol er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol. |
| Rheolaethau Swyddogol | Unrhyw fath o fesur rheoli ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd | System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. |
| Safonau Masnach | Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |
| Sefydliadau cymeradwy | Sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddynt sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Sgôr risg | System sy'n rhoi sgôr i sefydliadau bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r sefydliadau hynny. Er enghraifft, dylai sefydliadau risg uchel o ran hylendid gael eu harolygu o leiaf bob 6 mis. |
| Swyddog awdurdodedig | Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |

| | |
|---|---|
| Ymyrraeth | Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu i'w gynorthwyo i wneud hynny. |